**Arolygiad Ansawdd & Effaith**

# Effeithioldeb gwaith prawf yng Ngwent

Ebrill 2017

© Hawlfraint y Goron 2017

Medrwch ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I edrych ar y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwchpsi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi dynodi unrhyw hawlfraint gwybodaeth gan drydydd parti, bydd angen i chi dderbyn caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoedddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi Llawr 1af Canolfan Cyfiawnder Sifil
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | **5** |
| | **Ffeithiau allweddol** | **6** |
| **1** | **Dyfarniadau cyflawn ac argymhellion** | **7** |
| | Diogelu'r cyhoedd | 7 |
| | Lleihau aildroseddu | 8 |
| | Cadw at y ddedfryd | 9 |
| | Argymhellion | 10 |
| **2** | **Y trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau prawf yng Ngwent** | **11** |
| | Cyd-destun cenedlaethol | 11 |
| | Cyd-destun lleol | 12 |
| | Trefniadau cyfundrefnol yn y CRC | 13 |
| | Trefniadau cyfundrefnol yn yr NPS | 22 |
| **3** | **Gwerthusiad o ansawdd y gwasanaethau prawf yng Ngwent** | **27** |
| | **Diogelu'r cyhoedd** | **27** |
| | Effeithioldeb yr CRC | 27 |
| | Effeithioldeb yr NPS | 29 |
| | Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd | 32 |
| | **Lleihau aildroseddu** | **34** |
| | Effeithioldeb yr CRC | 34 |
| | Effeithioldeb yr NPS | 40 |
| | Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd | 44 |
| | **Cadw at y ddedfryd** | **46** |
| | Effeithioldeb yr CRC | 46 |
| | Effeithioldeb yr NPS | 48 |
| | Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd | 49 |
| | Atodiad 1: Methodoleg yr arolygiad | 50 |
| | Atodiad 2: Data cefndir | 51 |

| | | |
|---|---|---|
| | Atodiad 3: Dadansoddiad data o achosion a arolygwyd | 56 |
| | Atodiad 4: Rhestr termau | 59 |
| | Atodiad 5: Cydnabyddiaethau | 64 |

# Rhagair

Dyma ein harolygiad cyntaf o waith prawf oedolion a wnaed gan CRC sydd ym meddiant Working Links, a'n cyntaf yng Nghymru ar ôl gweithrediad *Trawsnewid Adsefydlu*r haglen Llywodraeth y DU. Roeddem wedi arolygu gwaith a wnaed yng Ngwent gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) ac adran Cymru o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS).


Mae gan y ffigyrau perfformiad a gyhoeddwyd ar gyfer y gwasanaeth prawf eu cyfyngiadau. Mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu bod yr NPS Cymru yn perfformio yn is na'r cyfartaledd, ond fel mater o ffaith roeddem ni wedi canfod arweinyddiaeth gref, staff cryf eu cymhelliad, llwythi gwaith hydrin a pheth gwaith NPS rhagorol yng Ngwent. Y mater mawr ar gyfer NPS Cymru yw bod ansawdd y gwaith yn amrywio, fesul lle, ond pe byddai pob swyddfa yn medru trosglwyddo'r gwaith o ansawdd uchel a wnaed gan yr NPS yng Nghasnewydd, yna byddai mwy o unigolion yn cael eu cynorthwyo yn fwy effeithiol, i newid eu bywydau er gwell.

Roeddem wedi canfod darlun mwy pryderus yn y CRC. Mwy na dwy flynedd wedi'r *Trawsnewid Adsefydlu* , mae'r model gweithredu yn dal i newid, ac mae staff yn ofidus ac heb amheuaeth yn ysu am sefydlogrwydd.

Mae sylwedyddion *Trawsnewid Adsefydlu* wedi poeni ers hydoedd bod y CRC yn dewis a dethol, yn buddsoddi ond ychydig yn y rhai sydd fwyaf tebygol o droseddu, ond yn lle hynny ymagwedd y Working Links yw i raddio goruchwyliaeth, gyda'r oruchwyliaeth fwyaf dwys ar gyfer yr unigolion mwyaf heriol, ac i weithio mewn canolfannu hyb cymunedol lleol sydd hefyd yn darparau ystod o wasanaethau i'r gymuned yn gyffredinol. Cawsom argraff dda o'r hyb cymunedol, yn ymarferol. Ar gyfer yr un person mewn pedwar a aseswyd fel bod o risg isel, mae eu goruchwyliaeth tra yn y gymuned wedi ei gyfyngu i alwad ffôn pob chwe wythnos, er bod un ymhob tri o'r rhain fod cael cyswllt hefyd gyda goruchwylwyr gwaith di-dâl neu staff ymyriadau eraill, gan dybio bod y trefniadau yn gweithio yn ôl y bwriad.

Yn ein barn ni, mae hyn yn golygu bod gormod o bobl yn cael rhy ychydig o sylw. Heb gyswllt ystyrlon, mae unigolion yn annhebygol o ddatblygu ewyllys i newid. Ymhellach, wrth i amgylchiadau unigolion newid, felly hefyd y risg o niwed i'r cyhoedd maent yn ei gynrychioli. Mae staff yn ansicr ynghylch y model, â'u barn, heb amheuaeth, wedi ei ddylanwadu i raddau gan yr ymarfer cwtogi sydd ar droed. Mae gweithredu yn cymryd amser hir, ac mae rhai agweddau o'r model nad ydynt yn gweithio fel y dylent wneud.  Mae ysbryd staff yn isel, ac absenoldeb oherwydd salwch yn frawychus o uchel, ac eto (fel yr wyf wedi dod i ddisgwyl) daethom ar draws swyddogion cyfrifol ymrwymedig yn gweithio'n galed i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau.

Mae ffigyrau canlyniadau perfformiad y CRC's yn dangos ei fod yn perfformio'n gymharol dda. Caiff yr hyn sy'n cael ei fesur ei wneud, wrth gwrs, ond weithiau bydd hyn ar draul gwaith arall y dylid ei wneud, fel yr ydym wedi canfod fan hyn. Gyda rhy ychydig o gynlluniau gwasanaethau defnyddwyr yn cael eu dilyn i'r pen, a gyda niferoedd staff yn lleihau yn sylweddol, mae'n anodd osgoi dod i'r casgliad, er gwaethaf y bwriadau da, mai yr hyn sydd yn gyrru blaenoriaethau y CRC hwn yw ystyriaethau syml bod yn fforddiadawy ac angen llethol i gydbwyso'r llyfrau.



**Y Fonesig Glenys Stacey**
Prif Arolygydd Prawf EM
Ebrill 2017

## Ffeithiau Allweddol

| | |
|---|---|
| **262,388** | Cyfanswm y troseddwyr sydd yn amodol ar oruchwyliaeth prawf ledled Cymru a Lloegr [1] |
| **10,319** | Y nifer o droseddwyr a oruchwyliwyd gan CRC Cymru[1] |
| **6,544** | Y nifer o droseddwyr a oruchwyliwyd gan adran Cymru o'r NPS[1] |
| **39%** | Y gyfradd o achosion CRC Cymru sydd yn berthnasol i ddedfryd o garchar (cyn neu ar ôl goruchwyliaeth ôl-rhyddhau)[1]. Y gyfradd ar draws Cymru a Lloegr oedd 40% |
| **68%** | Y gyfradd o droseddwyr a gafodd eu cofnodi fel rhai oedd wedi cwblhau yn llwyddiannus eu cyfnod o drwydded neu oruchwyliaeth ôl-ddedfryd gyda'r CRC yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa[2]. Ffigur y perfformiad ar draws Cymru a Lloegr oedd 75%, yn erbyn targed o 65% |
| **1,032** | Y nifer o droseddwyr MAPPA cymwys a reolwyd gan yr NPS yng Ngwent[3] |
| **3 (o 21)** | Y nifer o CRCs sydd ym meddiant Working Links |

---

[1] Ystadegau Rheolaeth Llwyth Achosion Troseddwyr ar 30 Medi 2016, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[2] Gwasanaeth CRC Lefel 9a, Ystadegau Chwarterol Pefformiad Cymunedol Ebrill - Medi 2016, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[3] Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) mis Mawrth 2016, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 1. Dyfarniadau cyflawn ac argymhellion

Y tro diwethaf i ni gynnal arolygiad o berfformiad y gwasanaethau prawf yng Nghymru oedd yn 2014, pan ddarparwyd gwasanaethau o'r math hwn ledled Cymru gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru. Ers hynny rydym wedi datblygu ein methodoleg arolygu, a gan fod llwythi gwaith prawf a mathau o waith wedi newid hefyd, nid oes modd gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y pryd hwnnw a nawr. Roeddem wedi crynhoi canlyniadau ein harolygiad yn 2014 yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Canlyniadau arolygiaeth Ymddiriedolaeth Prawf Cymru 2014**

| Canlyniadau | Y gyfradd o'r gwaith yr ysytyrir ei fod wedi ei wneud yn ddigon da |
|---|---|
| Cynorthwyo dedfrydu | **77%** |
| Trosglwyddo dedfryd y llys | **73%** |
| Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu | **62%** |
| Diogelu'r cyhoedd | **62%** |
| Trosglwyddo gwaith effeithiol i ddioddefwyr | **73%** |

Mae'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn yn 2016 wedi eu gosod allan yn y penodau canlynol ac wedi eu crynhoi yma.

## Diogelu'r cyhoedd

### Effeithioldeb y CRC

Nid oedd y gwaith i ddiogelu'r cyhoedd o ansawdd digonol.

Roedd asesiadau a chynllunio yn dda, ond nid oedd ansawdd y gwaith dilynol yn ddigon da. Yn ymron i hanner yr achosion yr oeddem wedi eu harolygu, nid oedd swyddogion cyfrifol wedi cymryd pob cam rhesymol i gadw i'r lleiaf posibl risg y defnyddiwr gwasanaethau i eraill.

Roedd pwysau ar reolwyr a swyddogion cyfrifol i gwrdd â gofynion cytundebol ar draul ansawdd y gwaith. Mae'r CRC yn wynebu pwysau ariannol, ac roedd gofynion adroddiadau cytundebol a thargedau perfformiad cysylltiedig â goblygiadau ariannol neu gosbau wedi cael blaenoriaeth.

Roedd angen trosolwg mwy effeithiol gan reolwyr.

### Effeithioldeb yr NPS

Roedd ansawdd y gwaith i ddiogelu'r cyhoedd yn dderbyniol at ei gilydd.

Roedd asesiadau a chynllunio yn dda, ond roedd ansawdd y gwaith dilynol yn amrywio fesul ardal, gyda pheth gwaith o safon uchel. Mewn nifer fechan o achosion roedd y gwaith a drosglwyddwyd yn wael.

### Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd

Roedd perthnasau a chyfathrebu rhwng y ddau sefydliad yn gryf.

Roedd prosesau helaethiad risg yn gweithio'n dda, a'r mesurau perfformiad perthnasol wedi eu bodloni.

Roedd trafodaethau cyn-cyflwyno rhwng y CRC a'r NPS ymhob achos yn arwain at dderbyn pob helaethiad risg a gyflwynwyd.

Gyda llinellau cyfathrebu effeithiol wedi eu sefydlu, roedd materion oedd yn peri pryder rhwng y ddau sefydliad yn cael eu trafod a'u trin yn hawdd.

## Lleihau aildroseddu

### Effeithioldeb y CRC

Nid oedd y CRC yn ddigon effeithiol wrth drosglwyddo ymyriadau i leihau aildroseddu.

Roedd asesiadau a chynllunio i leihau aildroseddu yn dderbyniol. Ni wnaed digon wedyn, fodd bynnag, ac weithiau roedd yr hyn a wnaed heb bwrpas clir.

Nid oedd gwasanaethau penodol ar gael pan oedd eu hangen, neu ddim o gwbl mewn ambell achos. Yn ychwanegol, roedd swyddogion cyfrifol wedi drysu ynghylch pwrpas ac anghenion y gofynion gweithgareddau adsefydlu.

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i anghenion defnyddwyr benywaidd y gwasanaethau, gydag ymyriadau penodol i fenywod ar gael. Yn ogystal roedd ymagwedd sefydlog ac effeithiol amlasiantaethol i Reoli Integredig Troseddwyr .

Yn yr achosion yr oeddem wedi eu harolygu, roedd cynydd digonol wedi ei wneud wrth fynd i'r afael ag anawsterau defnyddwyr gwasanaethau ac wrth gefnogi eu hiechyd emosiynol a'u lles. Nid oedd digon o gynnydd wedi ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion a gofynion eraill defnyddwyr gwasanaethau.

### Effeithioldeb yr NPS

Roedd ansawdd y gwaith a drosglwyddwyd gan yr NPS yn dderbyniol yn gyffredinol, ond roedd yn amrwyio ar draws yr aradal, gyda rhai ardaloedd yn gwneud llawer yn waeth nag eraill.

Roedd trefniadau sicrwydd ansawdd wedi sicrhau bod adroddiadau llys o ansawdd da a phenderfyniadau dyraniad yn gywir. Roedd ynadon yn gadarnhaol iawn ynghylch gwaith llys staff prawf.

Roedd asesiadau a chynllunio yn dda.

Roedd cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud tuag at ganlyniadau aildroseddu, a mwyafrif mawr o ddefnyddwyr gwasanaethau heb aildroseddu. Gwelsom nifer o enghreifftiau lle roedd ymyriadau wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.

### Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd

Roedd y ddau sefydliad wedi dangos ymrwymiad i waith partneriaeth ac i Reoli Integredig Troseddwyr. Roedd eu gwaith gyda throseddwyr benywaidd yn dda. Roedd digwyddiadau hyfforddi ar y cyd yn cynnig cyfleoedd i staff o'r ddau sefydliad ddysgu gyda'i gilydd.

Nid oedd yn amlwg bob amser o'r 'cerdyn cyfradd' pa wasanaethau ac ymyriadau oedd ar gael. O ganlyniad, gwelid y cerdyn cyfradd gan yr NPS fel rhwystr rhag mynediad i wasanaethau, ac roedd oedi wrth i rai defnyddwyr gwasanaethau gael mynediad i ymyriadau gofynnol.

# Cadw at y ddedfryd

## Effeithioldeb y CRC

Roedd ansawdd y gwaith yn dderbyniol.

Roeddem o'r farn bod digon o gynnydd wedi ei wneud wrth drosglwyddo gofynion y ddedfryd neu drwydded yn nhri-chwarter yr achosion a arolygwyd, a bod y nifer o apwyntiadau a gynigiwyd yn briodol yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd swyddogion cyfrifol yn gyffredinol yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion amrywiol y defnyddwyr gwasanaethau.

Cafwyd ymateb priodol ymron tri-chwarter yr achosion o ymddygiad anaddas, absenoldebau y tybiwyd eu bod yn annerbyniol, a diffyg cydsynio. Roedd gormod o achosion, fodd bynnag, lle roedd y CRC o'r farn bod absenoldeb y defnyddiwr gwasanaethau yn dderbyniol.

Roedd cwmpas y newidiadau cyfundrefnol wedi tarfu ar rai agweddau o drosglwyddo gwasanaethau, ac roedd ymadawiadau staff ac absenoldebau oherwydd salwch wedi arwain at drefniadau adrodd gwael ar gyfer rhai defnyddwyr gwasanaethau.

## Effeithioldeb yr NPS

At ei gilydd, roedd ansawdd y gwaith yn dda.

Roeddem wedi canfod bod anghenion amrywiol defnyddwyr wedi cael eu dynodi mewn asesiadau a'u hystyried adeg y cynllunio, yr ymyriadau a'r adolygiadau ymron pob achos yr oeddem wedi eu harchwiilo.

Roeddem o'r farn bod digon o gynnydd wedi ei wneud wrth drosglwyddo gofynion y ddedfryd mewn pedwar allan o bob pump achos. Gwelwyd defnyddwyr gwasanaethau yn ddigon aml ym mhob un o'r achosion a arolygwyd.

Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi cadw at ddedfryd y llys. Roeddem wedi canfod bod y gweithredu priodol ar gyfer tor-rheolau neu alw'n ôl i garchar wedi digwydd ymhob achos ble roedd hyn yn hanfodol.

## Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd

Roedd sianeli cyfathrebu effeithlon rhwng staff y CRC a'r NPS, ac roedd y ddau sefydliad yn siarad yn rheolaidd gyda dedfrydwyr.

O'r hyn a weslom yn uniongyrchol, roedd cyflwyno adroddiadau am dor-rheolau yn cael ei reoli'n dda.

Roedd trefniadau gweithio yn gadarnhaol yn gyffredinol, gyda'r rhan fwyaf o faterion yn cael eu datrys yn broffesiynol a phriodol.

# Argymhellion

## Dylai'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

1. ddynodi a datrys ar y cyd y rhwystrau i ddefnyddwyr gwasanaethau rhag cael mynediad i raglenni awdurdodedig
2. wella mynediad i'r ddarpariaeth gofyniad gweithgareddau adsefydlu sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau, a sicrhau ei fod yn cael ei drosglwyddo ar sail angen.

## Dylai'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol:

3. gymryd pob cam i ymrwymo staff gyda'r weledigaeth ar gyfer y sefydliad
4. gyflwyno mesurau ar unwaith i fonitro sut mae ei fodel gweithredu yn gweithio yn ymarferol. Dylai'r CRC gadw ei lwyth gwaith a'i dybiaethau staffio dan adolygiad, a chasglu a gwerthuso gwybodaeth rheolwyr ar amlder a natur cyswllt gyda defnyddwyr gwasanaethau, newidiadau i'r swyddogion cyfrifol ac amlder adolygiadau achosion effeithiol.
5. sicrhau bod gwaith unigol a gynlluniwyd (wedi ei osod allan yng nghynlluniau'r defnyddiwr gwasanaethau) i leihau aildroseddau a rheoli'r risg o niwed yn cael ei drosglwyddo, yn ôl y cynllun, a bod cynlluniau yn cael eu hadolygu yn effeithiol mewn ymateb i amgylchiadau newidiol defnyddwyr gwasanaethau.

## Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

6. ddynodi achosion yr amrywiad daearyddol yn ansawdd y trosglwyddo a chymryd pob cam angenrheidiol i fynd i'r afael â pherfformiad gwael mewn meysydd penodol
7. fynd i'r afael â diffyg capasiti yn y Rhaglen Trin Troseddwyr Rhyw fel bod defnyddwyr gwasanaethau yn medru cael mynediad amserol i'r rhaglen
8. gael mynediad i ystod o wasanaethau adsefydlu (gan gynnwys ymyriadau CRC) i gwrdd ag anghenion a gofynion defnyddwyr gwasanaethau.

# 2. Y trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau prawf yng Ngwent

## Cyd-destun cenedlaethol

Mae cyfrifoldebau plismona a chyfiawnder cyfreithiol wedi eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond gan Lywodraeth y DU mae'r cyfrifoldeb amdanynt yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am iechyd, addysg, tai a gofal cymdeithasol fodd bynnag, ac mae'r pedwar comisynydd heddlu a throseddu yng Nghymru wedi eu hethol yn uniongyrchol ac mae ganddynt eu blaenoriaethau eu hunain.

Yn 2014, roedd Llywodraeth y DU wedi ymestyn goruchwyliaeth prawf ar draws Cymru a Lloegr am y tro cyntaf i droseddwyr a ryddhawyd o'r carchar am ddefrydau llai na 12 mis (dros 40,000 o bobl pob blwyddyn[4]). Nawr, mae tua 260,000 o oedolion yn cael eu goruchwylio gan wasanaethau prawf ar unrhyw adeg a thua 17,000 o'r rhai hyn yng Nghymru[5]. Yn ogystal, ers Mai 2015, mewn menter a elwir yn 'Trwy'r Porth', mae'n rhaid i wasanaethau prawf ddarparu gwasanaethau ailsefydlu i droseddwyr tra eu bod yn y carchar, gan ragweld eu rhyddhau.

Darparwyd gwasanaethau prawf ynghynt gan un Ymddiriedolaeth Prawf yng Nghymru, ochr yn ochr â 34 yn Lloegr. Roedd yr ymddiriedolaethau yn hunan-lywodraethol ac yn gweithio dan gyfarwyddyd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). Darperir gwasanaethau prawf yn awr mewn model economi cysymg. Roedd llywodraeth San Steffan yn dymuno hyrwyddo mentergarwch yn y gwasanaethau prawf, ac ym Mehefin 2014, dan y rhaglen*Trawsnewid Adsefydlu*, cafodd gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr eu rhannu yn Wasanaeth Prawf Cenedlaethol a 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol newydd mewn perchnogaeth breifat yn darparu gwasanaethau dan gytundeb saith-mlynedd gyda gwerth gydol oes o tua £3.7 biliwn. Mae un adran NPS ac un CRC yn gwasanaethu Cymru, a Chymru yn unig.

Mae'r NPS yn cynghori llysoedd ar ddedfrydu pob troseddwr, ac yn rheoli'r troseddwyr hynny sydd yn cyflwyno risg uchel neu risg uchel iawn o niwed, neu sy'n cael eu rheoli dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Mae'r CRC yn goruchwylio y rhan fwyaf o droseddwyr eraill sydd yn cyflwyno risg isel neu ganolig o niwed.

Er mwyn amddiffyn y cyhoedd, mae staff prawf yn asesu ac yn rheoli'r risgiau mae troseddwyr yn cyflwyno i'r gymuned. Maent yn helpu adsefydlu troseddwyr trwy ddelio gyda phroblemau megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a diffyg gwaith neu gartrefi, er mwyn lleihau'r rhagolwg o aildroseddu. Maent yn monitro pwy sydd yn cydymffurfio â gofynion y llys, er mwyn sicrhau bod unigolion yn cadw at eu dedfryd, ac adrodd amdanynt wrth y llys neu'n gwneud cais i'w hanfon yn ôl i'r carchar os nad ydynt yn cydymffurfio.

Daw'r rhan fwyaf o incwm y CRC o ffi sydd yn gysylltiedig â'r nifer o droseddwyr dan fathau gwahanol o oruchwyliaeth, a'r gofynion y maent yn amodol iddynt. Gellir lleihau'r taliadau hyn os nad yw'r CRC yn bodloni rhai o'r lefelau gwasanaethau. Yn ogystal, mae'r posibilrwydd o incwm ychwanegol - taliadau yn ôl canlyniadau - wedi eu cychwyn gan leihau aildroseddu wedi ei brofi, unwaith mae'r data aildroseddu ar gael. Ar hyn o bryd mae'r llywodraeth yn adolygu perfformiad mesurau CRC a threfniadau cyllido manwl mewn adolygiad o wasanaethau prawf.

Mae'r newid i'r model economi cymysg wedi bod yn heriol, a disgwyliadau newydd y darparwyr gwasanaethau yn gofyn llawer. Mae'r rhai hynny sydd yn derbyn dedfrydau byrion yn aml yn droseddwyr mwy cyson, yn llai parod i dderbyn adsefydlu. Mae gwasanaethau Trwy'r Porth angen

---

[4] Mae'r ffigyrau yn berthnasol i ryddhau o ddedfrydau diffiniedig o lai na 12 mis yn ystod 2015 (ac eithrio pobl 15-17 mlwydd oed). Ffynhonnell: Ystadegau Rheoli Troseddwyr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Hydref 2016.

[5] Ystadegau Rheolaeth Llwyth Achosion Troseddwyr ar 30 Medi 2016, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

dyfalbarhad a chyd-weithio da, ac mae'r trefniadau hynny yn dal wedi eu tan-ddatblygu ledled Cymru a Lloegr.

Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, mae maint gwaith yr NPS at ei gilydd wedi codi yn amlwg yn y flwyddyn a aeth heibio[6]. Mae lefelau staffio yr NPS wedi codi fymryn yn Lloegr, ac wedi cynyddu yng Nghymru gan fod yr NPS yn gweithio tuag at sefydlu lefelau sydd yn gyson â'r NPS fel cyfanrwydd. Mae llwyth achosion CRC Cymru wedi codi yn amlwg ers 2014[7]ond mae'n dal yn is na'r hyn a ragwelwyd gan gytundeb y CRC. Mae diffygion yn amrywio ar draws y CRCs. Mae'r trefniadau newydd yn darparu cyfleoedd i fentro a datblygu systemau newydd, ond mae diffygion mewn llwyth achosion wedi arwain at gyfyngiadau ariannol ac ansicrwydd i CRCs, ac amharodrwydd i ymrwymo i fuddsoddiad mwy hir-dymor neu gadwyni cyflenwi sefydlog.

Nid yw'r maint o waith a ragwelwyd wedi digwydd yn rhannol oherwydd gostyngiad yn y nifer o euogfarnau[8] a newidiadau i ddedfrydu. Mae'r defnydd o ddedfrydau gohiriedig wedi cynnyddu, tra bod dedfrydau cymunedol wedi gostwng yn gyffredinol[9]. Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd yn fwyaf ddiweddar ynghylch aildroseddu wedi ei brofi yn dangos un flwyddyn pan oedd y gyfradd o aildroseddu wedi amrywio, o 30.2% i 36.4% rhwng rhanbarthau ar gyfer y troseddwyr hynny oedd yn dechrau gorchymyn llys a chael eu rheoli gan ddarparwyr prawf yn y cyfnod o Fehefin 2014 i Fawrth 2015[10]. Yng Nghymru, roedd y gyfradd aildroseddu yn 34.9%, yr ail uchaf o bob rhanbarth.

## Cyd-destun lleol

Yma rydym yn adrodd ar wasanaethau prawf a ddarparwyd yn ardal Gwent gan CRC Cymru ac adran NPS Cymru fel ei gilydd. Mae Gwent wedi ei ffurfio o bump awdurdod unedol: pedair bwrdeistref Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen, a dinas Casnewydd. Mae'r ardal a arolygwyd yn gydffiniol gydag Ardal Comisynydd Heddlu a Throseddu Gwent.

**Fifigur 1.1: Map o ffiniau awdurdod unedol Gwent**




*Ffynhonnell y ddelwedd: Heddlu Gwent*

---

[6]Cymhariaeth Llwyth Achosion NPS Cymru 2014 a 2016 – gwybodaeth a ddarparwyd gan NPS Cymru.

[7]Darparwyd yr wybodaeth gan CRC Cymru.

[8]Mae'r nifer o unigolion a ddedfrydwyd gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr wedi disgyn o 1.46m yn 2006 i 1.25m yn 2016 Ffynhonnell: Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cyfiawnder Troseddol hyd at Fehefin 2016: Cymru a Lloegr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[9]Ffynhonnell: Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cyfiawnder Troseddol hyd at Fehefin 2016: Cymru a Lloegr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

[10]Ffynhonnell: Ystadegau Chwarterol Aildroseddu a Brofwyd: Ebrill 2014 i Fawrth 2015: Cymru a Lloegr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Rydym yn darparu data demograffaidd a gwybodaeth am yr ardal yn Atodiad 2.Mae bron 600,000 o bobl yn byw yn sir Gwent[11], gyda Chaerffili a Chasnewydd yr ardaloedd mwyaf dwys o ran poblogaeth.

Grwpiau gwyn Prydeinig sydd i'w cael yn bennaf ym mhedair bwrdeistref Gwent. Yn ninas Casnewydd ceir y cymunedau mwyaf amrywiol, er bod gan bob ardal lai o drigolion duon a lleiafrifoedd ethnig o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr. [12]. Mae diweithdra yng Ngwent yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig ond mae'r darlun yn amrywio yn fawr yn ôl cymdogaeth, gyda'r gyfradd uchaf ym Mlaenau Gwent a'r isaf yn Sir Fynwy[13]. Mae poblogaeth uchel o fyfyrwyr: Coleg Gwent yng Nghasnewydd yw coleg addysg bellach mwyaf Cymru. Mae gan yr ardal gymysgedd o boblogaethau gwledig a threfol, gyda chymunedau cyfoethog a rhai amddifad yn gymdeithasol. Yn y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (2014) mwyaf ddiweddar, nodwyd ardal o Gaerfiili fel yr ardal fwyaf amddifad yng Nghymru. Roedd gan Flaenau Gwent y gyfradd uchaf o gymunedau yn y 10% mwyaf amddifad yng Nghymru, tra bod dim ardaloedd amddifad penodol yn Sir Fynwy.

Mae cyfraddau aildroseddu ar draws pum ardal Gwent yn amrywio, gyda'r cyfraddau uchaf yng Nghasnewydd. At ei gilydd, mae'r cyfraddau aildroseddu a brofwyd ar gyfer yr holl droseddwyr ymhlith oedolion Gwent (26.0%) ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (24.3%), ond ychydig yn ia na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (26.9%)[14]. Mae'r nifer o droseddau a gyflawnwyd gan bob troseddwr eto yn amrywio yn ôl ardal, gyda'r nifer uchaf yng Nghasnewydd. Mae'r nifer ar gyfartaledd o bobl oedd wedi troseddu eisoes yn uwch yng Ngwent na chyfartaledd Cymru a Lloegr, ond mae ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Rhwng Mehefin 2014 a Thachwedd 2016 (adeg ein hadolygiad), roedd niferoedd staff ar draws CRC Cymru wedi gostwng, tra bod y llwyth achosion wedi cynyddu[15]. Adlewyrchwyd y sefylllfa hon yng Ngwent. Mewn cyferbyniad, roedd niferoedd staff NPS Gwent wedi codi. O ganlyniad, er bod gwaith yr NPS at ei gilydd wedi cynyddu, roedd cyfataledd llwyth achosion unigol wedi gostwng[16].

Mae gan dri pherfformiad targed cytundeb gosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfio, ac mae'r CRC yn cwrdd â dau ohonynt. Mae'r adroddiadu monitro diweddaraf[17] ar gyfer yr holl fesurau perfformiad yn dangos ei fod yn perfformio'n gymharol dda at ei gilydd o'i gymharu â CRCs eraill. Mewn cyferbyniad, mae adran NPS Cymru yn perfformio'n wael yn erbyn targedau cenedlaethol ac o'u cymharu ag adrannau eraill. Mae'nperfformio uwchben y targed cenedlaethol ar bedwar o'r deg mesur a gyhoeddwyd â data ar gael ar ei gyfer ac at neu'n uwch na'r cyfataledd cenedlaethol ar un yn unig o'r mesurau hynny.

## Trefniadau cyfundrefnol yn y CRC

### Llywodraethiant

CRC Cymru yw'r pedwerydd mwyaf yn y wlad yn nhermau gwerth contract[18]. Mae'n berchen i Working Links, a gafodd ei brynu yn ei dro gan y cwmni buddsoddi Aurelius ym Mehefin 2016. Mae Working Links yn berchen ar dri CRC, pob un yn cwmpasu ardaloedd gwledig: Bryste, Swydd


---

[11] Amcangyfrifiad o'r boblogaeth 581,789 yn 2015. Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[12]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2012.
[13]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2017.
[14]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017. Mae'r ffigyrau hyn yn is ma'r rhai hynny yn yr adran cyd-destun cenedlaethaol gan eu bod yn cynnwys y troseddwyr hynny oedd wedi derbyn dirwyon, rhybuddiadau, rhyddhad diamod a gorchmynion llys eraill.
[15]Darparwyd yr wybodaeth gan CRC Cymru.
[16]Darparwyd yr wybodaeth gan NPS Cymru.
[17] Datganiad Chwarterol Gwybodaeth Rheolaeth Perfformiad Cymunedol, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder Gorffennaf - Medi 2016.
[18]Model Gweithredu Targed. Rhaglen Adsefydlu. Medi 2013.

Gaerloyw, Gwlad yr Haf & Wiltshire; Dorset, Dyfnaint & Chernyw; a Chymru. Mae'n rheoli 13% o lwyth achosion y CRC yng Nghymru a Lloegr[19] ond yn ymdrin â llawer mwy o dir.

Mae tîm uwch arweinyddiaeth gweithredol Working Links yn darparu llywodraethiant a throsolwg ar gyfer y tri CRC. Yn ogystal, mae ail grŵp a elwir yn Steerco, yn arolygu trawsnewid (ar lefel weithredol Working Links), wedi ei danategu gan Fwrdd Gweithredu sydd yn dilyn hynt model gweithredu Working Links, gan gynnwys lefelau staffio, ystadau a darpariaeth TG. Caiff pob CRC ei arwain gan Gyfarwyddwr Prawf sydd yn eistedd ar Steerco ond sydd hefyd â'i dîm uwch arweinwyr ei hun, yn gyfrifol am arweiniad gweithredol a strategol, a gweithrediad y model gweithredu yn lleol. Mae'r tri CRC yn gweithio'n gydweithrediadol, gan rannu dysg ac adnoddau.

**Ffigur 1.2: Diagram yn cynrychioli trefniadau safonol llywodraethiant y CRCs sydd ym meddiant Working Links**





*Ffynhonnell data: CRC Cymru*

**Ffigur 1.3: Diagram yn cynrychioli trefniadau safonol llywodraethiant CRC Cymru**

[19] Ystadegau chwarterol rheoli troseddwyr, Gorffennaf i Fedi 2016 Tabl 4.10: Troseddwyr a oruchwyliwyd yn y gymuned ar ddiwedd y cyfnod, gan Ranbarth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Rhanbarth a CRC, Cymru a Lloegr.

**Llywodraethu Trawsnewid**





*Ffynhonnell data: CRC Cymru*

Mae CRC Cymru yn cwmpasu pump clwstwr o Unedau Trosglwyddo Lleol (LDU): Dyfed Powys; Gwent; Gogledd Cymru; De Cymru 1; De Cymru 2 a dwy 'Ganolfan Hyb Mewn-Cyswllt'. Mae clystyrau wedi eu ffurfio o grwpiau o swyddfeydd. Ar gyfer Gwent, y rhain yw Caerffili, Dwyrain Gwent, Glwyn Ebwy a Chasnewydd.

Mae penaethiaid LDUsyn arolygu rheolaeth gwaith yn y clystyrau a glustnodwyd iddynt ac yn dal portffolios ar gyfer arbenigaethau penodol ar draws Cymru.

**Ffigur 1.4: Organogram o Strwythur LDU Gwent**




*Ffynhonnell data: CRC Cymru*

## The Working Links Way

Mae Working Links wedi rhoi mewn grym model gweithredu penodol yn ei ddau CRC arall ac yn awr mae'n ei weithredu yma, yn unol â chynllun busnes cyflawn trawsnewid Working Links a elwir ‘Working Links Way’. Ei fwriad datganedig yw i alluogi'r busnes i addasu a graddio yn unol ag anghenion newidiol busnes a gofynion ehangach y farchnad[20] - yn gryno, i alluogi'r busnes i reoli yn

[20] Trosolwg Strategol Cynllun Gwasanaeth Blynyddol CRC Cymru 2016-17.

y modd gorau a throsglwyddo o fewn ei allu. Dechreuodd y gweithredu yng Nghymru yn Ebrill 2016. Y blaenoriaethau datganedig yng Nghymru yw i sefydlu canolfannau hyb gweithredol (Mewn-Cysylltiad) ar gyfer gweinyddu achosion trefn arferol; i drosgwlyddo gwasanaethau prawf i ddefnyddwyr gwasnaethau mewn canolfannau hyb cymunedol lleoledig sydd hefyd yn darparu gwasanaethau eraill i'r gymuned; ac i gyflwyno ymagwedd newydd, wedi ei seilio ar risg i reolaeth achosion ac i ddynodi ymyriadau wedi eu seilio ar dystiolaeth.

Wrth galon y model mae matrics risg, â dwyster y goruchwylio yn cydweddu â chymhlethod yr achos a risg yn ôl asesiad y defnyddiwr gwasanaethau o aildroseddu neu i niweidio'r cyhoedd. Mae'r model yn dibynnu er adolygiadau rheolaidd o'r risg o niwed, y tebygolrwydd o aildroseddu a lefelau o ymrwymiad, gan ystyried ffactorau risg statig a dangoswyr cyfredol (er enghraifft galw allan ar gyfer camdriniaeth domestig).

**Tabl 2: Ymagwedd Working Links ar sail risg**

| BRAG | % Llwyth achosion<br>CRC Cymru | Ymagwedd | Cyfartaledd Amlder (ac eithrio trosglwyddo ymyriad) |
|---|---|---|---|
| Coch | 18 | Swyddog Prawf (PO): yn bennaf un-i-un | Pob 5 niwrnod busnes |
| Coch/Ambr | 9 | PO<br>Swyddog Gwasanaeth Prawf (PSO) gyda throsolwg gan y PO<br>Yn bennaf un-i-un; peth mewnbwn trwy Hyb Cymunedol | Pob 8 niwnrod busnes |
| Ambr | 34 | PSO<br>Cymysgedd o un-i-un; peth mewnbwn trwy Hyb Cymunedol | Pob 15 - 20 diwrnod busnes |
| Gwyrdd | 6 | PSO<br>Cymysgedd yn bennaf o un-i-un; mewnbwn trwy Hyb Cymunedol; cyswllt gyda rheolwr achos 'Mewn-Cysylltiad' | Pob 30 diwrnod busnes |
| Mewn Cysylltiad | 19 | PSO<br>Pob achos gwyrdd wedi eu hasesu fel risg isel | Pob 30 diwrnod busnes |
| Glas (yn y ddalfa) | 14 | Bydd pob achos arall ac eithrio y rhai hynny sydd wedi eu dynodi i POs a Rheoli Integredig Troseddwyr (RIT/IOM) yn cael eu cynnal gan reolwyr 'Mewn-Cysylltiad' hyd at 12 wythnos cyn eu rhyddhau pan fydd yr asesiad BRAG yn penderfynu a ydynt i | Ymgymryd â gweithgaredd pob 30 diwrnod busnes ac yn fisol am y 12 wythnos olaf cyn rhyddhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | aros 'Mewn-Cysylltiad' neu symud at reolwr achos swyddfa flaen[21] | |

*Ffynhonnell Data: Working Links*

Mae'r defnyddwyr gwasanaethau hynny yr ystyrir eu bod yn cyflwyno risg isel o niwed i gael eu rheoli gan ganolfannau hyb Mewn-Cysylltiad trwy gyswllt ffôn yn chwe- wythnosol, er y gellir trosglwyddo achosion yn ôl ar gyfer cyswllt wyneb-yn-wyneb gyda swyddogion cyfrifol wedi eu henwebu os yw'r asesiad yn newid. Mae troseddwyr eraill yn derbyn rheolaeth achos un-i-un a gallant gael mynediad i wasanaethau trwy'r canolfannau hyb cymunedol.

Adeg yr arolygiad yn Nhachwedd/Rhagfyr 2016, nid oedd y model wedi ei weithredu yn gyflawn ac roedd y nodweddion hynny a oedd yn weithredol yn dal yn eu babandod.

### Canolfannau Hyb Mewn-Cysylltiad

Roedd Canolfannau Hyb Mewn-Cysylltiad wedi eu sefydlu yng Nghaerdydd, Abertawe a Gogledd Cymru. Roedd achosion perthnasol (gan gynnwys llawer o achosion gwaith di-dâl) yn cael eu trosglwyddo iddynt. Ar gyfartaledd roedd llwyth achosion y canolfannau hyb yn 162 achos fesul PSO Mewn-Cysylltiad[22].

Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau yn croesawu'r ffôn yn hytrach na gorfod mynd i swyddfa brawf. Dywedodd eraill wrthym eu bod yn gofidio, gan eu bod yn gwerthfawrogi'r cysylltiad gyda'r swyddog cyfrifol ac eisiau cyswllt wyneb-yn-wyneb. Roedd ymarferwyr yn bryderus am y model newydd.

Roedd angen galwadau ffôn pob chwe wythnos, man lleiaf, gyda phob defnyddiwr gwasanaethau, er mwyn ail-asesu risg. Rhoddwyd pwyslais yn y canllawiau a ddarparwyd i staff ar y defnydd o farn broffesiynol gan swyddogion cyfrifol wrth benderfynu ar raddfa'r risg. Yn yr achosion a welsom ni, roedd yn galonogol gweld bod y penderfyniadau ar adolygu risg yn cael eu harolygu gan reolwyr.

### Hybs Cymunedol

Nid oedd pob hyb cymunedol mewn lle. NId oedd darpariaeth cyrchiad TG o bell yn y rhai hynny oedd wedi eu sefydlu. Roeddem wedi ymweld â dau o'r hybs cymunedol yng Ngwent, un ym Mhont-y-pŵl, a'r llall yn Y Fenni. Mae'r CRC yn cynllunio datblygu hybs cymunedol mewn mannau eraill, ond yn y cyfamser mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau (ar wahân i'r rhai hynny sydd wedi eu dynodi ar gyfer yr hyb Mewn-Cysylltiad) yn cael eu gweld mewn swyddfeydd prawf.

Mae hyb Pont-y-pŵl wedi ei leoli mewn gwasanaeth cymunedol sefydlog o'r enw The Lighthouse. Mae hwn yn gartref i wasanaethau amrywiol ar gyfer y gymuned leol ehangach gan gynnwys camddefnydd o sylweddau a gwasanaethau iechyd, cyngor ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) a budd-daliadau, a dolenni i bobl sydd yn cynghori ar ac yn darparu llety. Medrai defnyddwyr CRC gael mynediad cyflym i'r gwasanaethau hyn, a gallai mynediad barhau y tu hwnt i'r cyfnod goruchwylio.

Bwriad datganedig y CRC yw bod yr hybs hyn yn 'cyfrannau yn fawr i gyfleoedd i hyrwyddo agenda cyfiawnder cymdeithasol ehangach'[23]. Heb os mae mynediad hawdd, diffyg stigma a'r syniad o gymuned sydd yn rhan hanfodol o hybs cymunedol yn nodweddion deniadaol i ddefnyddwyr gwasanaethau, a medrant yn hawdd gyfrannu eu hunain i ganlyniadau effeithiol.

Roedd staff a rheolwyr yn canfod bod yr hybs yn ffordd gadarnhaol o ymwneud gyda defnyddwyr gwasanaethau ac asiantaethau partner. Roeddem wedi canfod bod cyfnewid gwybodaeth rhwng staff yn yr hyb wedi helpu sicrhau bod anghenion unigol defnyddwyr gwasanaethu yn cael eu

[21] Rheolwr achosion rheng flaen yw'r term lleol ar gyfer ymarferwyr rheng flaen (swyddogion cyfrifol) sydd yn trosglwyddo rheolaeth troseddwyr yn CRC Cymru.
[22] Darparwyd yr wybodaeth gan CRC Cymru.
[23] Cymru Trosolwg Strategol Cynllun Gwasanaeth Blynyddol CRC 2016-17.

bodloni a chymhelliant yn cael ei gynnal. Roedd modd adnabod unrhyw newidiadau yn y defnyddiwr gwasanaethau ac ymateb iddo yn gyflym. Roedd modd trosglwyddo pecynnau gweithgareddau gofynion adsefydlu (RAR) trwy'r hyb, ac adeg ein harolygiad, roedd RAR newydd, Meddwl Iach, ar fin cychwyn.

Roedd ymwneud CRC yn The Lighthouse yn ei fabandod. Roedd tri PSO o dimoedd gwahanol yno ar ddiwrnodau gwahanol. Nid oedd modd i staff gael mynediad i gofnodion achosion, ac roeddynt wedi eu rhwystro o'r herwydd, er enghraifft pan oedd defnyddwyr gwasanaethau yn galw heibio heb rybudd..

## Arweiniad a rheolaeth

Cawsom argraff dda o ddeall bod y CRC wedi arolygu defnyddwyr gwasanaethau tua 12 mis yn ôl, i weld beth oedd eu dewisiadau ynghylch trosglwyddo gwasanaethau. Roedd ymatebwyr yn hoffi'r syniad o hybs cymunedol, ac yn dymuno iddynt gael eu gosod mewn cymunedau lleol.

Roedd arweinwyr a rheolwyr CRC wedi ymrwymo i wneud newidiadau a fyddai'n arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roeddynt yn ymwybodol, fodd bynnag, o heriau logistaidd a gweithredol yn y model gweithredu newydd, a bod y newidiadau yn cael effaith sylweddol ar forâl staff a lefelau absenoldeb oherwydd salwch. Adeg ein harolygiad, roedd cynllun ailstrwythuro ac ymddiswyddo ar droed i weithredu'r model ac hefyd i ymdrin â phwysau cyllidebol - i blygu a graddio yn unol â gofynion y farchnad. Roedd staff yn bryderus am y niferoedd oedd yn gadael a'r llwyth gwaith tebygol i'r rhai fyddai'n aros.

Yn y bôn, roedd staff yn canfod bod amcanion Working Links a'r sail resymegol ar gyfer y newidiadau yn ddryslyd. Mewn gwirionedd, roedd yn ymddangos bod y newid wedi ei yrru yn bennaf gan bwysau ariannol. Roedd y staff yn gweld bod yr amcanion a'r sail resymegol a gyflwynwyd iddynt yn gorfforaethol a diriaethol, yn hytrach nag wrth wraidd anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi colli hyder yn y model gweithredu, yr arweinyddiaeth a'r broses o weithredu'r newidiadau. Roeddynt yn dweud eu bod yn teimlo wedi eu llethu.

Roedd arweinwyr a rheolwyr CRC yn adnabod pwysigrwydd canolog parhau'r berthynas gyda defnyddwyr gwasanaethau, ond roeddem wedi canfod bod y swyddog cyfrifol yn newid yn aml. Soniodd defnyddwyr gwasanaethau am bwysigrwydd perthynas barhaol gydag ymddiriediaeth yn eu swyddogion cyfrifol, ond roedd rhai roeddem wedi cyfarfod â hwy eisoes wedi cael tri neu bedwar swyddog cyfrifol.

Er gwaetha yr anawsterau hyn, roedd perthnasu gwaith da wedi eu cynnal gydag uwch arweinwyr NPS, a cyhynhaliwyd cyfarfodydd rhyngweithio yn gyson. Roedd ymrwymiad cryf i weithio gyda phartneriaethau lleol. Er enghraifft, roedd pennaeth yr LDU yn cynrychioli'r CRC ar y Bwrdd Diogelu Oedolion ar gyfer Gwent gyfan, a Bwrdd Diogelu Plant De Ddwryain Cymru.

## Staffio a llwyth achosion

Ar yr wyneb, ar gyfartaledd roedd llwyth achosion unigol yn hydrin, gyda thua 60 achos fesul swyddog cyfrifol[24]. Ond roedd y cyfataledd, fodd bynnag, yn gwrthddweud yr amrywiadau gwerth sylw. Roedd gan staff yn y tîm IOM lwyth achosion rhesymol o tua 30 achos, er bod hyn fod cynyddu yn Ionawr 2017 i 45. Roedd tuedd gan eraill i gael 60-70 o achosion, gyda phob achos a aseswyd fel bod o risg isel wedi eu rheoli gan staff eraill yn yr hyb Mewn-Cysytlliad. Cawsom glywed gan ymarferwyr pryderus mewn grŵp trafod bod PSOs yn cael eu dynodi bellach ar gyfer achosion o risg uwch a mwy dyrys, ac mewn niferoedd uwch na chynt.

[24]Darparwyd gwybodaeth am staffio a llwyth achosion gan CRC Cymru.

Mae'r model gweithredol yn tybio llwyth achosion o 45 ar gyfer POs a 70 ar gyfer PSOs, gan roi cyfanswm capasiti o 2,011 achos. Mae'r amcanrif hwn yn tybio absenoldeb oherwydd salwch o ddeng niwrnod y person y flwyddyn. Yn 2015 roedd cyfartaledd y nifer o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd salwch fesul blwyddyn fesul aelod llawn-amser o'r staff yn isel, ar chwe niwrnod. Yn 2016, roedd y nifer wedi codi mwy na chymaint deirgwaith, i 19 diwrnod, ac mae'n parhau i fod yn frawychus o uchel, gan ymestyn adnoddau. Ymhellach, mae swyddogion cyfrifol yn gorfod ymgyfarwyddo yn rheolaidd gydag achosion a ailgyfeirir atynt, wrth i'r defnyddwyr gwasanaethau newid, staff wedi adael, a'r model gael ei osod.

**Tabl 3: Staffio LDU CRC Gwent Cymru a ffigyrau llwyth achosion ar gyfer y cyfnod 2014-2016**

| | Mehefin 2014 | Tachwedd 2016 | Cynnydd/gostyngiad | % newid |
|---|---|---|---|---|
| Llwyth achosion cyflawn | 1,439 | 1,565 | +126 | +9% |
| Staff cyfwerth â llawn-amser (FTE) (PO/PSO) | 36.27 | 35.21 | -1.06 | -%3 |
| Achosion fesul FTE | 39.67 | 44.45 | +4.78 | +12% |

Roedd rheolwyr wedi adrodd bod materion llwythi gwaith ac absenoldeb oherwydd salwch yn llyffetheirio ansawdd trosglwyddo gwasanaethau, gyda gwydnwch staff yn fater o bryder.

Roedd dwy draean y staff yn adrodd bod yr hyfforddi wedi bodloni eu hanghenion, ond dywedasant wrthym hefyd eu bod yn gofidio ynghylch gorfod cymryd amser allan ar gyfer hyfforddi, oherwydd pwysau llwythi gwaith.

## Argaeledd gwasanaethau a chysylltiad y trydydd sector

Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau yn cael eu darparu gan y CRC yn fewnol. Roedd ystod o ymyriadau achredig a heb fod yn achredig wedi eu darparu ar gyfer eu defnyddwyr eu hunain a defnyddwyr NPS. Roedd y CRC wedi cyhoeddi cyfarwyddiadur gwasanaethau yn disgrifio'r gwasanaethau oedd ar gael, gan gynnwys y rhai hynny oedd ar gael fel RARs.

Roedd modd i ddefnyddwyr gwasanaethau CRC gael mynediad i Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS) trwy gael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Ymyriadau Integredig Adferiad. Adeg ein harolygiad, roedd y gweithiwr ETE cyflwynedig yng Ngwent yn absennol, felly cawsai defnyddwyr gwasanaethau eu cyferio at Yrfaoedd Cymru neu sefydliadau eraill megis Cymunedau'n Gyntaf. Roeddem wedi canfod bod swyddogion cyfrifol yn ansicr ynghylch pa ddarpariaeth ETE oedd ar gael, a phwy oedd yn ei ddarparu.

Gwelwyd gan reolwyr a staff bod mynediad i lety addas yn fwlch sylweddol. Roedd hyn wedi ei ddwysáu gan ddeddfwriaeth ddiweddar[25] oedd yn tynnu troseddwyr o'r grŵp â'r angen pennaf am gartrefi gyda'r awdurdod lleol, ac nad oes angen bellach i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig roi blaenoriaeth i droseddwyr.

Roedd gweithiwr cymorth tai wedi gweithredu fel eiriolwr rhwng defnyddwyr gwasanaethau a phob awdurdol lleol yng Ngwent, i geisio cael unigolion wedi eu dynodi fel rhai oedd angen blaenoriaeth dan un o'r ffactorau blaenoriaeth dan *Ddeddf Tai (Cymru)*sydd yn dal i fodoli. Roeddem yn credu bod hyn yn ymarfer da, er yn dasg fawr i un gweithiwr. Cyflogir y gweithiwr gan Cyfiawnder Cymru (elusen sydd yn gweithio'n agos gyda'r Eglwys yng Nghymru) ac mae'r gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo trwy'r cerdyn cyfradd. Roedd llety addas yn brin, fodd bynnag, a rhenti yn anfforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau.

[25]Daeth *Deddf Tai (Cymru)* i rym yn 2014.

Adroddodd staff bod mynediad i wasanaethau iechyd meddwl yn dda. Yn ein profiad ni, mae mynediad da yn anghyffredin, gyda'r potensial o fod o werth enfawr. Roedd pedwar nyrs iechyd meddwl yn gweithio ar draws y gwasanaethau cyfiawnder troseddol yng Ngwent. Roeddynt yn gweithredu fel dolen rhwng y gwasanaethau prawf ac iechyd meddwl, ac yn gweithio gyda'r CRC a'r NPS fel ei gilydd.

Roedd rheolwyr CRC wedi dweud wrthym eu bod yn ymwybodol o'r 360 o grwpiau gwirfoddol yng Ngwent, a bod ganddynt gysylltiadau gyda'r rhan fwyaf ohonynt. Ni welsom lawer o dystiolaeth o hyn, fodd bynnag, oddi mewn i'r achosion gafodd eu samplo na'r gwaith a welsom.

## Gwasanaethau i fenywod

Roedd gwasanaethau i fenywod wedi eu datblygu'n dda, ac yn cael eu trosglwyddo'n dda.

Roeddem yn falch gweld bod y CRC, ar y cyd â'r NPS, wedi datblygu canllawiau ymarfer ar gyfer gweithio gyda throseddwyr benywaidd[26]. Roedd hyn yn cynnwys disgrifadau ar gyfer rolau arwain, gyda chanllawiau ar gynllunio asesiad a diogelwch, a chyngor ar atgyfeiriadau. Roedd gwasanaethau i fenywod wedi eu gwreiddio'n ddwfn mewn ymchwil, ac yn unol â'r argymhellion yn ein hadroddiad thematig yn 2016 ar fenywod sydd yn troseddu[27].

Roedd gan Gymru brosiect Pathfinder i Fenywod, a gomisiynwyd yn 2013 i 'gynllunio a throsglwyddo ymagwedd integredig, amlasiantaethol, wedi canoli ar fenywod oedd yn dod i gysylltiad â'r System Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru - Ymagwedd System Gyfan'[28].

Buom yn gwylio cyfarfod cynhadledd achos lleol Pathfinder i Fenywod. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn pob pythefnos yng Nghasnewydd, ac roeddynt wedi eu llunio i adnabod menywod oedd yn dod i mewn i'r system gyfiawnder troseddol. Roedd presenoldeb amlasiantaethol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, gofal cymdeithasol, tai a gwasanaethu camddefnyddio sylweddau, a Chymorth i Fenywod. Roedd swyddog cyfrifol wedi cyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr yn gysylltiedig â'r achosion dan drafodaeth. Roedd y cyfle hwn i rannu gwybodaeth ac ystyried anghenion troseddwyr benywaidd ar y cyd yn ymarfer calonogol.

Er nad oedd modd i ni ymweld â'r ganolfan Cymorth i Fenywod yng Nghasnewydd yn ôl ein cais, trefnwyd grŵp trafod i fenywod yn y swyddfa yng Nghasnewydd. Roedd ymarferwyr yn gadarnhaol ynghylch y gefnogaeth roedd y ganolfan yn ei darparu, ac yn croesawu'r ychwanegiad newydd o weithiwr i ganolbwyntio ar ferched sydd yn achosi trais yn y cartref. Roedd darparaieth arbenigol hefyd i fenywod ym Mhont-y-pŵl.

Roedd y ddwy fenyw ddaeth i'n grŵp trafod ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau wedi dweud wrthym bod ganddynt berthnasau cryfion gyda'u swyddogion cyfrifol, heb unhryw newid annisgwyl yn y swyddog, ac roeddynt yn teimlo eu bod yn cael cefngoaeth dda.

---

[26] NOMS yng Nghymru Canllawiau Ymarfer Effeithiol: Gweithio gyda Throseddwyr Benywaidd, Gorffennaf 2016.
[27] Arolygiaeth Prawf EM (2016) Arolygiad thematig o ddarpariaeth ac ansawdd gwasanaethau yn y gymuned i fenywod sydd yn troseddu.
[28] Rheoli Integredig Troseddwyr (RIT/IOM) Cymru Pathfinder i Fenywod, Tachwedd 2016.

## Gwasanaethau adsefydlu

Cawsom wybod gan reolwyr bod gwasanaethau Trwy'r Porth yn gwella ond gallent fod yn wael ar adegau, gyda defnyddwyr gwasanaethu yn dod i'r gwasanaeth prawf heb i unrhyw waith cyn-rhyddhau gael ei wneud gan staff y carchar.

Darperir gwasanaethau Trwy'r Porth yng Nghymru gan gytundebau CRC gyda dwy elusen: Ymddiriedolaeth St Giles, a Cymru Fwy Diogel (elusen sydd yn rhedeg prosiectau i fynd i'r afael â mathau amrywiol o gamdrin). Nid oedd ein sampl achos wedi codi tystiolaeth o'r gwasanaethau hyn a gontractiwyd trwy Trwy'r Porth. Ble daethom o hyd i enghreifftiau o gefnogaeth adsefyldu yn ystod yr arolygiad, daethant yn bennaf trwy waith swyddogion cyfrifol wrth iddynt gefnogi defnyddwyr gwasanaethau, yn hytrach na thrwy drefniadau ffurfiol Trwy'r Porth. Dywedodd rheolwyr wrthym, fodd bynnag, nad oedd gwiriadau Trwy'r Porth yn digwydd ynghylch addasrwydd cyfeiriadau arfaethedig adeg rhyddhau, gan arwain at bryderon parthed risg o niwed, ac adleisiau o'n canfyddiadau yn ein harolygiad thematig o waith Trwy'r Porth[29]nad oes digon yn cael ei wneud i reoli risgiau. Yn yr arolygiad hwnnw roeddem wedi argymell bod darparwyr prawf yn defnyddio gwasanaethau eraill oedd ar gael oddi mewn i garchardai adsefydlu pan yn ymgymryd â gweithgareddau cyn-rhyddau, ac roeddem yn falch gweld bod hyn yn cael ei ymarfer yma.

Gan weithio allan o Garchar Y Parc EM ac ar draws y cymunedau cyfagos, mae Nuriau Anweledig Cymru yn cynnig pecyn integreiddio o fesurau i deuluoedd i leihau aildroseddu a throseddau rhwng cenedlaethau, ac annog cynhwysiad cymunedol. Ar ddechrau blwyddyn pedwar y prosiect, roedd rhai canlyniadau cychwynnol trawiadol a gyflawnwyd gan y rhai hynny oedd yn cyfranogi yn y rhaglen ac ar gyfer eu plant. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau cyfraddau aildroseddau yn dilyn cael eu rhyddhau o garchar, a gwell presenoldeb yn yr ysgol.

Mae gan Pact Cymru, elusen genedlaethol sydd yn cefnogi carcharorion, lawer o brosiectau hefyd sydd yn cwmpasu carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru, wedi eu cyllido gan Loteri Fawr Cymru ar y cyd â NOMS. G4S (sydd yn rhedeg Carchar Y Parc EM) yw'r brif asiantaeth sydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Barnardo’s, Cyngor Sir Pen-y-bont, Gwalia (darparwr tai) a Chanolfan Cyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Mae darpariaeth gan Pact yn cynnwys gwasanaeth mentor gwirfoddol i gefnogi y rhai hynny sydd yn gadael y ddalfa am hyd at 12 wythnos wedi iddynt gael eu rhyddhau. Cafodd y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y CRC ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau CRC ac NPS. Gwelsom fudd hyn yn ymarferol yn ein harolygiad o achosion trwydded.

## Amgylchedd gwaith

Ar y cyd â'r hybs, roedd gan y CRC bum swyddfa yng Ngwent: Caerffili, Glyn Ebwy, Casnewydd, Pont-y-pŵl, a'r Coed Duon (lle mae tîm yr IOM wedi eu lleoli ar y cyd â'r heddlu). Adeg ein harolygiad, roedd y CRC yn rhannu adeiladau gyda'r NPS yn mhob un o'r pum lleoliad. Daethom ar draws amgylchedd gweithiol ym mhob swyddfa yr ymwelom â hwy.

Roeddem wedi sylwi ar drefniadau derbynfa ardderchog yn swyddfa Casnewyddd, adeilad modern mawr, golau ac yn cael digon o awyr. Roedd digon o daflenni ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd staff y dderbynfa yn trin defnyddwyr gwasanaethau â pharch. Roedd cyfnod ar gael i fenywod yn unig adrodd pob bore Llun.

Adeg ein harolygiad, roedd y CRC yn ystyried eu hystad, gyda'r bwriad o gyflwyno mwy o hybs cymunedol a symud allan o'r swyddfeydd roeddynt yn rhannu yng Nghaerffili, Glyn Ebwy a Phont-y-pŵl.

---

[29]Arolygiaeth Prawf EM (2016) Arolygiad o Wasanaethau Adsefydlu Trwy'r Porth i Garcharorion Tymor-byr.

Dywedodd y CRC wrthym eu bod yn y broses o ddatblygu technoleg gwybodaeth (TG), gyda gliniaduron newydd ar gyfer staff a system newydd i reoli achosion Working Links yn cael ei datblygu. Adeg ein harolygiad nid oedd y rhai hyn mewn lle.

### Sicrwydd ansawdd

Mae'r wybodaeth am berfformiad sydd ar gael yn berthnasol yn bennaf i gydymffurfio gyda chytundeb yn hytrach nac unrhyw fesuriadau eraill ar ansawdd y gwaith. Roedd rheolwyr yn derbyn bod ystod a chyflymdra newid, ar y cyd â phwyslais ar gwrdd â thargedau perfformiad, wedi arwain at lai o ffocws ar ansawdd ymafer.

Roedd rheolwyr yn derbyn gwybodaeth am berfformiad eu holl staff ddwywaith yr wythnos ac roedd modd iddynt hefyd gael mynediad dyddiol i wybodaeth am berfformiad. Dywedodd rheolwyr, fodd bynnag, ei bod yn anodd hoelio sut roedd hyn yn profi canlyniadau a phrofiadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gan fod y ffocws ar gwrdd â thargedau perfformiad, felly, er enghraifft, nid yw amlder cyfarfodydd goruchwylio yn cael eu hadrodd.

Mae gan y CRC arweiniad strategol ar gyfer perfformiad ledled Cymru, yn awyddus i rannu ymarfer da a dysgu ar draws Working Links y tri CRC. O fewn Cymru, cynhelir digwyddiadau dysgu ar y cyd rhwng CRC/NPS, ac fe'u gelwir yn Dysgu Cymru. Maent yn cynnwys adolygiadau cymheiriaid o achosion a rhannu ymarfer da ac fe'u croesewir gan staff a rheolwyr.

## Trefniadau cyfundrefnol yn yr NPS

Corff rhanbarthol cenedlaethol cymharol newydd yw'r NPS. Trosglwyddir gwasanaethau gweithredol yn fewnol ar wahân i'r rhai hynny wedi eu comisynu gan y CRC. Daw'r staff yn bennaf o'r Ymddiriedolaethau Prawf cynt. Mae'r NPS yn o'r ffordd trwy raglen uchelgeisiol, a eliwr yn E3[30], i safoni prosesau yn genedlaethol.

Y blaenoriaethau trosglwyddo datganedig lleol yng Nghynllun Busnes NPS Cymru ar gyfer 2016-17 yw:


- i sicrhau ymwneud rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion cyfiawnder troseddol a deddfwriaeth newydd cyfiawnder cymdeithasol a mentrau
- cynnal agenda integreddiad y NOMS yng Nghymru gyda charchardai yn y sector cyhoeddus
- datblygu a throsglwyddo cynllun gwaith IOM Cymru gan gynnwys gwasanaethau menywod, Ieuenctid i Oedolion (Y2A), Rheolaeth Integredig Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Cymru a phersonél a fu gynt yn y lluoedd arfog
- parhau i arwain a chefnogi Strategaeth Cymru dros Leihau Aildroseddu a gomisiynwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
- gweithredu a gosod gwasanaeth ymyriadau ar y cyd rhwng y PCCs, NPS a'r carchardai yn y sector cyhoeddus.

Yn diweddar gweithredwyd ar strwythur oedd wedi rhannu gwaith yr NPS yng Ngwent rhwng achosion gwarchodaeth a chymunedol. Roedd rheolwyr a staff yn gwerthfawrogi'r ymagwedd hon, ac roedd yn cael ei hystyried fef potensial mewn ardaloedd eraill fel model o ymarfer da.

---

[30] Model Gweithredu NPS E3 (2016) (Effeithioldeb, Effeithiolrwydd a Rhagoriaeth). Gellir canfod gwybodaeth bellach yn Atodiad 5.

**Ffigur 1.5: Organogram o strwythur rhanbarth Cymru yr NPS**




*Ffynhonnell Data: Rhanbarth Cymru yr NPS*

## Arweiniad a rheolaeth

Roedd gan Ranbarth Cymru yr NPS dîm arweiniad cryf gyda dealltwriaeth dda o'r materion strategol yn wynebu'r sefydliad. Canfuom ranbarth sefydlog wedi ei redeg yn dda, gyda ffocws ar ansawdd. Roedd rheolwyr yn bresennol ac yn weledol i staff.

Dirprwy Gyfarwyddwr yr NPS yng Nghymru sydd yn arwain y rhanbarth. Mae'n rheoli penaethiaid y pump LDU a phennaeth diogelu'r cyhoedd, ac ef yw arweinydd E3 cenedlaethol ar gyfer goruchwyliaeth cymunedol.

Mae pennaeth LDU NPS Gwent yn cydweithio gydag uwch reolwyr yn y CRC, gyda chyfarfodydd rhyngweithio rheolaidd i drafod materion strategol a gweithredol. Yn ogystal mae pennaeth yr LDU wedi ei gysylltu'n agos â phartneriaethau ar draws Gwent, gan gynnwys cadeirio Bwrdd Strategol MAPPA a Bwrdd Integredig Rheoli Troseddwyr, ynghyd â bod yn arweinydd diogelu plant ar gyfer Cymru.

Roeddem wedi canfod bod rheolwyr canol yn glir ac yn hyderus yn eu swyddogaethau, ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd ganddynt ffocws da ar ansawdd trosglwyddo, roeddynt yn cefnogi eu staff yn dda, ac yn eu tro yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch reolwyr. Dywedodd un rheolwr canol:"*Rwy'n teimlo'n ddiogel yn gweithio fel rhan o'r rhanbarth. Rydym yn cefnogi ein gilydd ac mae cynllun ynghylch ble rydym eisiau mynd. Rwy'n teimlo bod hyn yn ddefnyddiol*".

Roeddem wedi canfod bod rheolwyr a staff yn gadarnhaol iawn ynglyn â gweithio yn yr NPS, gyda rheolwyr yn gwerthfawrogi'r ymagwedd ranbarthol i reoli newid. Roedd rheolwyr a staff fel ei gilydd yn dweud wrthym eu bod yn falch o weithio yn y sefydliad. Teimlai staff bod ganddynt gefnogaeth y tîm, cyfeillach dda a'u bod yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Roeddynt yn falch bod gan NPS Cymru enw da a'i fod yn aml yn arwain cynlluniau peilot, a'i weld fel un yn gosod safonau uchel y dylai'r gweddill geisio eu cyrraedd. Roeddynt wedi cadw ffocws cryf ar wasnaeth da i ddefnyddwyr: gwelsom ymwneud cadarnhaol a chynhwysol.

## Staffio a llwyth achosion

Dywedodd rheolwyr wrthym bod llwythi achos swyddogion cyfrifol a staff y llys yn hydrin. Roedd y sefyllfa wedi gwella gydag amser. Roedd materion llwythi achos wedi eu rheoli yn weithredol ar lefel y rhanbarth ac roedd hyd wedi codi hyder yn y sefydliad at ei gilydd.

Roedd strwythur arbenigol wedi ei gyflwyno yn Erbill 2015 i rannu'r achosion gwarchodaeth a chymunedol. Roedd grŵp o staff yn cynnal achosion gwarchodaeth yn unig, gyda'u cyfoedion cymunedol yn rheoli'r newid yn ôl i'r gymuned tua naw mis cyn eu rhyddhau. Roedd hyn yn caniatáu i swyddogion yn y gymuned ymwneud â llai o achosion at ei gilydd, a hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio mwy ar ansawdd eu gwaith. Teimlai rheolwyr bod hyn wedi gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a gynigwyd. Roedd staff yn teimlo hefyd bod rhannu'r achosion yn fuddiol. Dywedwyd bod morâl wedi gwella o ganlyniad. Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2016[31]yn cefnogi'r canfyddiad hwn, gydag ymatebion NPS ar gyfer Gwent yn adlewyrchu yn gadarnhaol yn nhermau adnoddau, llwythi gwaith ac ymrwymiad staff.

Roedd yna strwythur cyfundrefnol sefydlog.

Yn ogystal bu recriwtiad sylweddol yn ddiweddar. Dros y 18 mis a aeth heibio, ar gyfartaledd roedd y llwyth achosion fesul swyddog wedi disgyn o 20% er gwaethaf cynnydd o 26% yn nifer y troseddwyr.[32]. Dywedodd staff mai 29-35 achos oedd eu llwyth achosion bwriadedig. Y cyfartaledd go iawn o lwyth achosion yw 25 fesul swyddog, er bod uwch arweinwyr yn dweud bod hyn yn nes at 30 o'i gyfrif ar sail FTE. Er bod llwythi achosion yn codi uwchben 35 achos o bryd i'w gilydd, roeddynt yn dal yn hydrin.

---

[31] Swyddfa'r Cabinet (2016) Arolwg Y Bobl Y Gwasanaeth Sifil 2016.

[32] Darparwyd gwybodaeth am staffio a llwyth achosion gan Ranbarth Cymru NPS.

**Tabl 4: Ffigyrau staffio a llwyth achosion LDU Rhanbarth NPS Cymru Gwent ar gyfer y cyfnod 2014-2016**

| Gwent | Gorffennaf 2014 | Tachwedd 2016 | Cynnydd/gostyngiad | % newid |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanwsm troseddwyr | 945 | 1196 | +251 | +26% |
| Nifer y POs a'r PSOs | 31 | 49 | +18 | +58% |
| Achosion fesul swyddog (fesul troseddwr) | 30.5 | 24.4 | -6.1 | -%20 |

## Gwasanaethau sydd ar gael

Roedd yn ymddangos fel petai ystod rhesymol o wasanaethau ar gael.

Roedd rhaglenni achrededig gan y CRC yn cynnwys Adeiladu Perthnasau Gwell (BBR) a Rhaglenni Sgiliau Meddwl (TSP). Roedd ymyriadau i gefnogi RARs ar gael hefyd.

Er hyn, roedd yr NPS yn datblygu adnoddau mewnol i swyddogion cyfrifol eu trosglwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ystod goruchwyliaeth, ac yn ddiweddar roeddynt wedi dechrau cynllun peilot goruchwyliaeth grŵp gyda'r ffocws ar faterion ymarferol, dinasyddiaeth, annog hunaniaeth gadarnhaol a goblygiadau bod ar ddedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol wedi ei rheoli gan yr NPS.

Mae Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn cael ei gyd-gyflwyno gan NOMS yng Nghymru, swyddfa Comisynydd Heddlu a Throseddu Gwent, Bwdd Cynllunio'r Ardal a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r gwasanaeth ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau NPS a CRC. Dangoswyd gwaith partneriaeth da, gydag ystod o ddarpariaethau dan ymbarél y GDA i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys ymrwymiad, triniaeth, adfer ac ôl-ofal, y gwasanaeth cyfiawnder troseddol, a chefnogaeth teulu a gofalwr. Roedd yn bosibl cadw unigolion gyda'r un gweithiwr achos wrth iddynt drawsnewid ar draws gwasanaethau oddi mewn i GDAS yn ystod unrhyw gyfnod o oruchwyliaeth statudol a'r tu allan iddo fel ei gilydd. Gwelwom dystiolaeth dda o atgyfeiriadau i'r GDAS ac roedd yn amlwg bod cryn barch i'r gwasanaeth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a staff prawf fel ei gilydd.

Roedd gan yr NPS reolwr rhaglen i Gymru, ynghyd â rheolwr triniaeth. Roedd hwyluswyr rhaglenni yn cynnwys staff penodedig a swyddogion cyfrifol gyda rôl deublyg. Roeddynt yn cyflwyno Rhaglen Driniaeth Troseddwyr Rhyw (SOTP) a'r Rhaglen Driniaeth Troseddwyr Rhyw ar y Rhyngrwyd, ac yn cynllunio i gyflwyno Horizon, rhaglen newydd ar gyfer troseddwyr rhyw risg canolog wedi ei llunio yn unol ag ymchwil ymataliad. Gwelsom dystiolaeth o waith a wnaed gan swyddogion cyfrifol ar waith cyn-rhaglenni gyda throseddwyr rhyw, gan gynnwys gwaith cyswllt a chydweithio gyda'r uned diogelu'r cyhoedd, ymweliadau ar y cyd â'r cartref, asesiadau System Weithredol o Reoli Risg a chynlluniau rheoli risg cynhwysfawr.

Er hyn, roeddem wedi canfod bod oedi cyn dechrau troseddwyr rhyw ar yr SOTP, gan fod prinder staff yn creu llwythi wrth gefn ac oediadau. Roedd hyn yn arwydd o ddiffyg capasiti ar gyfer lleoedd SOTP mewn ardal lle roedd y galw yn uwch na'r cyfartaledd: ym Mawrth 2016, roedd gan Went 121 troseddwr rhyw fesul poblogaeth o 100,000, o'i gymharu â 104 fesul 100,000 yng Nghymru a Lloegr[33]. Dywedodd uwch reolwyr NPS wrthym eu bod yn cymryd camau i wella'r sefyllfa, ac yn cydnabod nad oes ganddynt y tiwtoriaid cywir yn y lleoedd cywir.

[33] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2016) Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: 2015-2016.

Roedd gan Gymru raglen lwybr anhwylder personoliaeth sydd wedi rhedeg ers 2013. Yn bennaf yn wasanaeth ymgynghoriaeth a chyngori i swyddogion cyfrifol sydd yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau ag anhwylder personoliaeth, roedd yn darparu sianel rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasnaethau cyfiawnder cymdeithasol. Roedd swyddogion cyfrifol yn sgrinio i adnabod achosion posibl, a oedd yn dueddol o fod yn achosion o risg uchel o niwed. Yna rhoddwyd cefnogaeth i'r swyddog cyfrifol i reoli'r risgiau yn gysylltiedig â'r achos.

## Amgylchedd gwaith

Roedd yr NPS a'r CRC yn dal i gael eu cyd-leoli yn y Coed Duon, Caerffili, Glyn Ebwy, Casnewydd a Phont-y-pŵl, er bod y CRC yn bwriadau gwneud newidiadau. Roedd yr heddlu yn cyd-leoli â'r NPS a'r CRC yn y Coed Duon ac yn bwridau cyd-leoli gyda'r NPS yng Nghaerffili o fewn y misoedd nesaf. Mae defnyddwyr gwasanaethau yn adrodd i bob lleoliad. Mae'r swyddfeydd yn hygyrch o fewn cymunedau, ac mae cyfnod adrodd i fenywod yn unig pob bore Llun, er bod y nifer o fenywod yn y fintai yn yr NPS yn isel, yn cyfrif am 5% yn unig o lwyth achosion yr NPS[34].

Adroddodd rheolwyr mai materion TG oedd y brif rwystr yn effeithio ar weithredu o ddydd i ddydd, yn bennaf materion system o fewn y system gofnodi genedlaethol, nDelius, nad oedd ar gael ar adegau.

## Sicrwydd ansawdd

Mae gan yr NPS reolwr perfformiad a chynnal ansawdd a rheolwr busnes ar gyfer Gwent. Roedd y ddau ddeiliad swydd hyn wedi creu dolenni cyswllt agos gydag uwch arweinwyr a rheolwyr tîm ac yn gwneud galwadau misol i reolwyr perfformiad eraill ar draws Cymru i rannu dysg ac ymarfer da.

Reodd adolygu targedau yn digwydd yn fisol, gyda samplo ar hap yn digwydd i adolygu asesiadau troseddwyr (OASys), adroddiadau llys a meysydd gwaith eraill. Roedd adnodd lleol ar gael i staff gwestiynu ymarfer da a materion perfformiad, a dadansoddi eu perfformiadau eu hunain. Roedd offer gwella ymarfer cenedlaethol yn ffocysu ar y risg o niwed wedi eu gosod mewn lle, gyda phwyslais diweddar ar asesu a chynllunio.

[34] NOMS yng Nghymru Canllawiau Ymarfer Effeithiol: Gweithio gyda Throseddwyr Benywaidd, Ebrill 2016.

# 3. Gwerthusiad o ansawdd gwasanaethau prawf yng Ngwent

## Diogelu'r cyhoedd

### Effeithioldeb y CRC

At ei gilydd, roedd ansawdd y gwaith i ddiogelu'r cyhoedd yn annigonol. Roedd asesiadau a chynllunio i reoli'r risg o niwed i eraill yn cael eu gwneud yn dda, ac roedd hyn yn daprau sail da ar gyfer y gwaith. Ond nid oedd hyn yn cael ei ddilyn trwodd yn ddigon da, fodd bynnag, i'r gwaith a wnaed gan y defnyddwyr gwasanaethau. Roedd angen trosolwg rheolaeth effeithiol mewn mwy o achosion.

Roedd ymrwymiad cryf i ddiogelu, gydag uwch reolwyr yn ymwneud â'r Bwrdd Diogelu Oedlolion a'r Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant, gyda rheolwyr tîm yn cysylltu ag is-grwpiau o'r rhain. Roedd canllawiau ymarfer perthnasol mewn lle yng nghyswllt diogelu plant a diogelu oedolion.

#### Asesu a chynllunio

Roeddem wedi canfod bod lefel y risg o niwed a gofnodwyd gan y CRC yn gywir ymron pob achos i ni eu hadolygu. Mewn dau achos, roedd y risg o niwed wedi ei asesu fel bod yn rhy isel, ac roedd hyn yn effeithio ar y ffordd y rheolwyd yr achos, er enghraifft lle roedd asesiad wedi colli'r angen i ymchwilio'r berthynas gyda chariad y cyn-bartner, er mwyn cynllunio yn llawn ar gyfer risgiau posibl. Roeddem o'r farn bod y risg o niwed i aelodau o'r cyhoedd, oedolion hysbys, plant a staff wedi cael eu hasesu yn ddigon da yn y rhan fwyaf o achosion, ac ymhob achos yn gysylltiedig â risg i garcharorion eraill.

Roedd cynllunio ar gyfer gwaith i asesu a lleihau'r risg o niwed wedi ei wneud yn ddigon da yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd yn galonogol gweld bod cynllunio i reoli'r risg o niwed i blant yn cynnwys cysylltiad da gyda gwasnaethau gofal cymdeithasol plant, agwedd o ymarfer yr ydym yn canfod ei fod yn brin yn aml. Roedd trefniadau ar gyfer achlyusron hap hefyd wedi eu hystyried yn dda, a ffactorau diogelu wedi eu hystyried yn gyffredinol.

Meddai arolygwr:"*roedd asesiad risg a chynllun rheoli risg o ansawdd da iawn, yn gryno ac yn fanwl gywir, gyda phob trefniant diogelu wedi eu dynodi a llinellau atebolrwydd clir wedi eu hamlinellu*".

Roedd digwyddiad Dysgu Cymru ac adolygiad cyfoedion wedi canolbwyntio yn ddiweddar ar asesiad risg a chynllunio, ac roedd hyn wedi ei groesawu gan staff fel bod yn addysgiadol ac o fudd i'w gwaith.

#### Trosglwyddiad

Roedd y gwaith a drosglwyddwyd gan swyddogion cyfrifol CRC yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu y rhai hynny oedd yn wynebu risg oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau mewn dwy-draean o'r achosion a samplwyd. Ond roeddem wedi cafnod cysylltiad annigonol gyda defnyddwyr gwasanaethau, absenoldeb ymweliadau â'r cartref, ac ymyryiadau heb eu trosglwyddo fel y'u cynlluniwyd mewn rhai achosion. Gwelsom ddiffyg mynediad i, ac oediadau cyn dechrau ymyriadau strwythuredig, er enghraifft, y rhaglen BBR.

**Engrheifftiau o ymarfer gwael:**

Roedd gan Alan[35] hanes o aflonyddu a thrais domestig yn erbyn partneriaid. Roedd hefyd yn dangos agweddau negyddol tuag at awdurdod, er enghraifft yr heddlu, ac roedd wedi bod yn dreisgar ar

[35]Noder: mae pob enw yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid er mwyn amddiffyn hunaniaeth yr unigolyn.

lafar tuag at staff prawf, yn ogystal â chael ymrafaelion gyda chymdogion. Nid oedd mynediad i ymyriadau strwythuredig neu raglenni i fynd i'r afael â'i ymddygiad na'r ffordd yr oedd yn cysylltu ag eraill.

Roedd Sam yn ddefnyddiwr cyffuriau anrhefnus gyda hanes o ddiffyg cydymffurfio ac ymrwymiad gwael. Roedd yn hysbys fel cyflawnwr trais domestig, ond cafodd ei roi yng nghartref dioddefwr blaenorol a lle roedd plant. Nid oedd ganddo lety sefydlog. Roedd y CRC wedi treulio gormod o amser yn mynd i'r afael â'r materion cysylltiedig â'i gael yn byw gyda'i gyn-bartner. Nid oedd tystiolaeth bod unrhyw ymyriadau gwerth chweil wedi digwydd.

Roedd problemau gyda throsglwyddo wedi eu gwaethygu gan newidiadau cyson yn y swyddog cyfrifol mewn rhai achosion, lle roedd anghysondeb yn arwain at ddiffyg ffocws ar waith diogelu'r cyhoedd. Lle roedd gwaith da yn digwydd, roedd hyn yn bennaf oherwydd gwaith eithriadol gan swyddogion unigol. Mae'r canlynol yn enghreifftio hyn:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd Howard yn 28 mlwydd oed ac roedd ganddo hanes o aflonyddu ar y menywod yr oedd wedi cael perthynas â hwy. Cafodd ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol am 18 mis gyda gofyniad i fynychu rhaglen Perthnasau Parchus RAR. Roedd Howard yn dioddef o or-bryder ac roedd yn gofido am fynychu sesiynau gwaith grŵp. Roedd eisiau dychwelyd i'r coleg i orffen ei radd.

Aeth y swyddog cyfrifol a'r achos yn ôl i'r llys fel y medrai'r rhaglen gael ei throsglwyddo ar sail un-i-un, bu'n chwilio am gyngor a hwylusodd ddadleniad wedi ei reoli o euogfaranu Howard i'r coleg. Roedd y swyddog cyfrifol yn amlwg wedi herio cyfeiriad meddwl Howard ar sail y rhaglen waith oedd yn cael ei throsglwyddo. Cadwodd hi gofnod manwl o'r gwaith roedd yn ei wneud ac ymatebion Howard yn ystod ei sesiynau goruchwylio (RAR).

Roedd Howard yn ymateb yn dda i'r gwaith.

### Adolygiad o'r cynnydd

Roedd cynnydd naill ai heb ei adolygu neu heb ei adolygu'n dda.Roedd mwy na hanner yr achosion a samplwyd yn brin o adolygiad digonol o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau diogelu'r cyhoedd, er gwaethaf dibyniaeth arfaethedig y sefydliad ar werthusiad risg cyson oddi mewn i'r model gweithredu fel cyfanrwydd.

Roedd y diffyg ymateb i amgylchiadau newidiol bywydau'r defnyddwyr gwasanaethau yn destun pryder, gydag phrin mwy na thraean yr achosion wedi cael ymateb digon da. Gellid colli cyfleoedd i fynd i'r afael â'r risg o niwed.

Roedd diffyg arolygiaeth rheolwyr a monitro cynnydd achosion, gyda staff yn adrodd bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol mewn dim ond hanner yr achosion a samplwyd. Yn flaenorol roedd staff wedi dibynnu ar gyngor gan gydweithwyr hŷn, ond roedd llawer ohonynt wedi gadael yn ddiweddar, neu ar fin gadael, trwy'r broses ailstrwythuro gyfredol. Roedd hyn yn achos pryder i ymarferwyr ac i ni.

**Engrheifftiau o ymarfer gwael:**

Newidiodd amgylchiadau Mary tra ei bod ar drwydded gan iddi ddechrau perthynas newydd gyda rhywun oedd yn hysbys fel cyflawnwr trais domestig. Roedd yn hysbys bod perthynas flaenorol debyg wedi cyfrannu at ei throseddu. Ni chynhaliwyd adolygiad o'r achos mewn ymateb i'r berthynas newydd.

Roedd gan Colin ddull ddryslyd o fyw, gyda hanes o ddiffyg cydymffurfio. Newidiodd amgylchiadu er

gwaeth, gan ei fod eto yn byw gyda dioddefwr ei drosedd (partner blaenorol), a thrwy hynny yn torri ei orchymyn ataliol. Roedd hyn yn ystod cyfnod pan oedd y swyddog cyfrifol i ffwrdd o'r gwaith am gyfnod estynedig. Roedd diffyg arolygiaeth dros dro yn golygu diffyg ffocws ar faterion posibl ynghylch diogelu'r cyhoedd. Nid oedd pryderon am fynediad i'w blant a'r niwed posibl y medrai ei wneud iddynt wedi cael sylw yn ddigon cyflym.

### Effaith ac effaith bosibl

Roeddem wedi canfod bod swyddogion cyfrifol wedi cymryd camau rhesymol i gadw i'r isaf risg y defnyddiwr gwasanaethau o niweidio eraill mewn prin dros hanner yr achosion yn unig. Mae tabl 5 yn dynodi'r galluogwyr allweddol a'r rhwystrau i waith y CRC wrth gyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd.

**Tabl 5: Rhestr o alluogwyr a'r rhwystrau i'r CRC mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o ddiogelu'r cyhoedd.**

| Galluogwyr | | Rhwystrau | |
|---|---|---|---|
| 1. | Roedd asesiadau a chynllunio i reoli'r risg o niwed gan ddefnyddwyr gwasanaethau i eraill wedi ei wneud yn dda yn y mwyafrif mawr o achosion. | 1. | Roedd y gwaith a drosglwyddwyd gan swyddogion cyfrifol i fynd i'r afael â a rheoli'r risg o niwed i eraill yn anghyson, ac adolygiadau o'r cynnydd yn annigonol. |
| | | 2. | Roedd arolygiaeth o reolaeth effeithiol yn brin. |
| | | 3. | Roedd galwadau llwythi gwaith, ffocws ar newid cyfundrefnol a chwrdd â thargedau perfformiad wedi effeithio'n groes ar ansawdd gwaith diogelu'r cyhoedd. |

## Effeithioldeb yr NPS

At ei gilydd, roedd ansawdd gwaith yr NPS i ddiogelu'r cyhoedd yn ddigonol. Roedd ymarfer yn amrywio, fodd bynnag, rhwng lleoedd, gydag ymarfer Casnewydd yn eithriadol o dda. Roedd rheolwyr yn ymwybodol o'r amrywiad hyn mewn perfformiad, ac maent wedi cyflwyno gweithdrefnau i sicrhau gwelliant.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cadarn mewn lle ar gyfer yr NPS, ac ar y cyfan roeddynt yn cael eu dilyn.

Roedd cyfraniad gweithredol yr NPS i drefniadau diogelu ledled Gwent, ynghyd â system sydd wedi ei datblygu'n dda o adolygu achosion, mesurau sicrhau ansawdd a hyfforddiant staff yn debygol o sicrhau bod plant ac oedolion bregus yn cael eu diogelu. Roedd awdurdodau lleol yng Ngwent yn y broses o baratoi Hyb Diogelu Amlasiantaeth (MASH); roedd yr NPS wedi ymrwymo i osod staff prawf o fewn y MASH i gyfrannu i drefniadau diogelu.

### Dosrannu achosion

Roeddem wedi canfod bod dosraniad yr achosion wedi ei wneud yn dda. Roedd pryderon am ddiogelu wedi eu hadnabod yn gywir o fewn yr adroddiadau a baratowyd gan yr NPS mewn llysoedd ymhob achos perthnasol.

Roedd risg y defnyddiwr gwasanaethau wedi ei adnabod yn gywir gan yr NPS trwy gydol cyfnod yr arolygiad yn y mwyafrif mawr o achosion. Mewn dau achos roeddem yn teimlo bod lefel y risg o niwed yn rhy isel ac y medrai fod wedi cael effaith ar y ffordd y cafodd yr achos ei reoli. Un enghraifft oedd lle roedd y defnyddiwr gwasanaethau wedi cael ei asesu fel bod o risg uchel o

niwed difrifol adeg y dosrannu, ond roedd y swyddog cyfrifol yn ystod yr asesiad cychwynnol wedi ei ddynodi fel bod o risg canolog i oedolion hysbys. Roeddem yn teimlo y dylai fod wedi ei gadw fel bod o risg uchel o niwed, o leiaf yn y lle cyntaf, oherwydd hanes cyson o dorri ei orchymyn ataliol, a hanes o droseddu oedd yn cynnwys llosgi bwriadol.

## Asesu a chynllunio

Roedd asesiad o'r risg o newid oddi wrth defnyddwyr gwasanaethau i eraill wedi ei wneud yn dda yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd swyddogion cyfrifol yn gofalu amlinellu'r risgiau gan ddefnyddio gwybodaeth hanesyddol a chyfredol i wneud eu hasesiadau. Roedd asesiadau ar y cyd, gan gynnwys y rhai hynny yn y System Weithredol o Reoli Risg wedi eu hintegreddio'n briodol i'r achos.

Roedd cynllunio er mwyn ymdrin â'r risg o niwed wedi ei wneud yn dda yn y rhan fwyaf o achosion hefyd. Gwelsom rai enghreifftiau o gynlluniau ymdrin cynhwysfawr, oedd yn manylu ar ymglymiad asiantaethau eraill, a'r cyfrifoldebau priodol.

Fe nodom, fodd bynnag, beth amrywiad yn ansawdd yr ymarfer, gyda rhai rhannau o'r ardal yn perfformio'n well nag eraill yn gyson, er enghraifft mewn perthynas ag asesu a chynllunio. Eto, roedd y gwaith ar ei gryfaf yng Nghasnewydd. Mae'r ddwy enghraifft ganlynol yn dangos y cyferbyniad hwn:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd Tony yn 33 mlwydd oed ac wedi ei ddedfrydu i 8 mis yn y ddalfa am dorri gorchymyn ataliol a chlwyfo maleisus. Roedd ei hanes hir o droseddu wedi dechrau pan oedd yn 11 oed. Pan oedd yn 13 oed, roedd ei droseddu treisgar wedi dechrau ac wedi parhau. Roedd euogfarnau diweddar yn 2014 yn gysylltiedig â chael methadone a cannabis,yn ei feddiant, ymddygiad bygythiol a bod ag offeryn â llafn yn ei feddiant, ac fe gafodd ddedfryd o garchar.

Roedd yr asesiad yn cynnwys crynodeb rhagorol o'r risgiau i bob categori (plant, y cyhoedd, oedolion hysbys a staff); roedd y rhain wedi eu gosod allan yn glir ac yn hawdd eu deall. Roedd y cynllun rheoli risg yn ardderchog, gan fanylu yn gynhwysfawr ar ba asiantaethau oedd yn gysylltiedig a pha weithrediadau roedd pob asiantaeth yn gyfrifol amdanynt. Roedd yn glir bod y swyddog cyfrifol yn cael Tony i ymrwymwo i'w anghenion ei hun a beth sydd yn rhaid iddo ei wneud i gefnogi ei adsefydliad ei hun. Roedd y rhain wedi eu torri lawr i gamau bach, hydrin, i Tony eu cyflawni.

Tra nad oedd digon o amser ar drwydded i gwblhau'r rhaglen BBR, roedd ymyriad gwahanol, Perthnasau Parchus, yn cael ei drosglwyddo gan y swyddog cyfrifol ar sail un-i-un. Roedd y swyddog cyfrifol wedi gosod nodiadau wedi eu gludo ar bob modiwl o weithlyfr Tony gyda'r dyddiadau perthnasol arnynt yn nodi 'dylid gorffen erbyn'. Roedd hyn yn dangos trefnu a chynllunio rhagorol o'r gwaith arfaethedig. Roedd Tony ar y trywydd i gwblhau'r rhaglen.

**Enghraifft o ymarfer gwael:**

Roedd diffyg cynllunio cyn-rhyddau yn ei achos ef yn golygu bod Len, troseddwr treisgar yn gadael y ddalfa yn dilyn torri ei orchymyn ataliol, yn ddigartref.

Rhai safonol oedd amodau ei drwydded, ac annigonol. Dylai'r drwydded fod wedi cynnwys amod 'dim cyswllt' ar gyfer y cyn bartner, lle roedd wedi torri'r gorchymyn ataliol drosodd a thro. Dylai amodau oedd yn galw arno i gwblhau'r rhaglen BBR (ac roedd ei gyfnod trwydded yn caniatáu digon o amser i wneud hyn) ac i fynd i'r afael â'i gamddefnydd o sylweddau ac ymddygiad troseddol fod wedi eu cynnwys hefyd yn y cyfnod cynllunio.

## Trosglwyddiad

Roedd y gwaith a drosglwyddwyd gan swyddogion cyfrifol i ddiogelu y rhai hynny oedd yn wynebu risg o niwed wrth y defnyddwyr gwasanaethau yn ddigonol ymron dwy draean o'r achosion ond roedd yn anghyson. Roedd yr achosion gwanaf gan amlaf o'r ardaloedd nad oedd yn perfformio cystal ar y cyfan, gydag oediadau cyn cael mynediad i raglenni achrededig, diffyg sylw wedi ei dalu i anghenion amrywiol a diffyg gwaith addas yn cael ei drosglwyddo. Roedd rheolwyr yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn mewn perfformiad ac yn hyderus eu bod yn gwneud cynnydd.

Gwelsom achosion lle roedd gwaith da iawn yn cael ei drosglwyddo i reoli'r risg o niwed. Roedd hyn yn cynnwys cysylltiad effeithiol a chyfathrebu gydag asiantaethau eraill, talu sylw da i anghenion amrywiaeth, a threfnu gwaith rhagorol. Yn ogystal roedd yr NPS yn y broses o ddatblygu ei raglenni ei hun, megis y peilot goruchwyliaeth grŵp y soniwyd amdano eisoes.

Roedd deg achos yn y sampl yn cael eu rheoli ar lefel 1 MAPPA. Roedd pob un yn cael eu rheoli ar y lefel gywir, ac roedd MAPPA yn cyfrannu at gadw pobl yn ddiogel. Roedd prosesau cadarn mewn lle ar gyfer ystyried achosion i gael eu rheoli ar Lefel 2 neu Lefel 3, ac ymrwymiad strategol da i MAPPA. Mae'r NPS yn defnyddio model gwerthuso hysbys[36], yn arwain at fwy o ffocws ar gynlluniau rheoli risg, ac arolygiaeth weithredol o'r risgiau cyfredol.

Gwelsom gyflwyniad da i'r cyfarfod cysylltiad prawf chwarterol ar MAPPA a Rheoli Troseddwyr Rhyw a Troseddwyr treisgar (MOSOVO) gan gydlynydd MAPPA a rhingyll o MOSOVO. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau at droseddwyr lleol oedd yn amodol ar drefniadau MAPPA. Roedd cynulleidfa niferus yn y cyfarfod, gyda 22 ynad a 2 uwch swyddg llys, yn ogystal ag uwch reolwyr o'r CRC a'r NPS fel ei gilydd.

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd is-grŵp llety MAPPA yn cynnwys pump rheolwr lletya a nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bu'n edrych yn ofalus ar sut i letya troseddwyr perthnasol. Roedd y grŵp wedi cyfarfod gyda 25 partner tai i osod allan disgwyliadau a dyletswyddau yr asianaethau perthnasol. Roedd yr ymagwedd hon wedi ei derbyn yn dda gan bartneriaid lleol, ac roedd proses newydd wedi ei dynodi i gyfeirio'r carcharion hynny oedd angen llety wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r awdurdod lleol yn y cyfnod cynllunio chwe-mis yn unol â phroses gynluunio MAPPA.

Roedd gan staff fynediad i'r Gofrestr Troseddwyr Treisgar a Rhyw (ViSOR) trwy eu rheolwyr tîm, ac yn defnyddio'r bas data yn gyson pan oedd angen gwneud. Rydym yn canfod yn aml nad yw ViSOR yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol ac roedd hyn yn newid i'w groesawu.

Roedd gan yr NPS ddau swyddog penodol ar gyfer cyswllt gyda dioddefwyr a gwelsom dystiolaeth bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n dda. Roedd y swyddogion cyswllt dioddefwyr yn rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth, ac yn darparu ymateb trylwyr a chyflym. Roedd y cyflwyno i fas data cenedlaethol wedi ei gwblhau yn unol ag argymhelliad o'n harolygiad thematig o drefniadau cyswllt gyda dioddefwyr[37]. Daeth rheolwyr i'r casgliad bod y bas data newydd yn werthfawr iawn.

## Adolygu'r cynnydd

Roedd swyddogion cyfrifol wedi adolygu cynnydd yn briodol mewn perthynas â phryderon ynghylch diogelu'r cyhoedd mewn ychydig yn llai na dwy draean yn unig o achosion perthnasol. Er hynny, roeddynt yn ymateb yn ddigon da i newidiadau mewn amgylchiadau mewn perthynas â risg i niwed mewn ond ychydig dros hanner yr achosion a samplwyd. Unwaith yn rhagor nodwyd amrywiad daearyddol, gyda rhai ardaloedd yn gryfach o lawer nac eraill.

[36] *Pedwar Piler Rheoli Risg*: datblygwyd gan yr Athro Hazel Kemshall, Athro Cyfiawnder Cymunedol a Throseddol, Prifysgol De Montfort. Y Pedwar Piler yw gouchwyliaeth; monitro a rheolaeth; triniaeth ac ymyriadau; a chynllunio diogelwch dioddefwr.

[37] Arolygiaeth Prawf EM (2013) Cyswllt â'r Dioddefwr: Arolygiad o drefniadau cyswllt â'r dioddefwr yn yr Ymddiriedolaethau Prawf

Enghraifft o ymarfer da oedd pan oedd swyddog cyfrifol yn nodi newid yng ngolwg defnyddiwr gwasanaethau, ac yn dogfennu'r angen i ddiweddaru ViSOR gyda'r wybodaeth hon. Unwaith eto, roedd yr effrogarwch hwn i'r potensial o ViSOR yn anarferol.

### Effaith ac effaith bosibl

Roeddem o'r farn bod yr holl weithredu rhesymol wedi ei wneud gan y swyddogion cyfrifol i gadw i'r isaf y risg o niwed a gyflwynwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau i eraill mewn ychydig yn llai na dwy-draean yn unig o achosion at ei gilydd. Eto fyth, roedd amyrwiad daearyddol glir yn yn ein canfyddiadau, a Chasnewydd oedd yr ardal gryfaf.

Roedd gwaith diogelu wedi ei osod yn gadarn. Roedd Byrddau ar gael ledled Gwent ar gyfer menywod oedd yn dioddef trais domestig a thrais rhywiol ac ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y rhain yn cael eu cenfogi gan system hollgynhwysfawr o is-bwyllgorau, a oedd yn eu tro yn cael eu cefnogi ar bob lefel briodol gan uwch reolwyr o'r NPS. Byddai ymrwymiad yr NPS i osod staff oddi mewn i'r MASH oedd yn datblygu yng Ngwent yn gymorth i adnabod y risgiau i blant oddi wrth defnyddwyr gwasanaethau.

At ei gilydd, roeddem wedi canfod bod sylfaen gadarn ar gyfer gwaith risg, gydag arolygiaeth rheoli effeithiol ac ymarfer cryf iawn mewn rhai ardaloedd daearyddol. Mae Tabl 6 yn dynodi'r galluogwyr allweddol a'r rhwystrau i waith yr NPS sydd yn cyfrannu i ddiogelu'r cyhoedd:

**Tabl 6: Rhestr o alluogwyr a rhwystrau i'r NPS mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o ddiogelu'r cyhoedd.**

| Galluogwyr | | Rhwystrau | |
|---|---|---|---|
| 1. | Roedd asesiadau a chynllunio i reoli'r risg o niwed gan ddefnyddwyr gwasanaethau i eraill wedi ei wneud yn dda yn y mwyafrif mawr o achosion. | 1. | Roedd ymarfer yn amrywio rhwng lleoliadau daearyddol yng Ngwent, gyda rhai ardaloedd yn perfformio yn well nac eraill yn gyson. |
| 2. | Roedd trefniadau MAPPA a'r arolygiaeth reoli o ymarferion risg o niwed yn effeithiol. | | |

## Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd

Roedd perthnasau a chyfathrebu rhwng y ddau sefydliad ar lefel uwch reolwyr yn gryf; roedd sgyrsiau cyson, rhannu gwybodaeth, a phroses ffurfiol ac gyfer cyfarfodydd rhyngweithio. Roedd uwch reolwyr o'r ddau sefydliad yn mynychu byrddau partneriaeth yng Ngwent ar y cyd, ef enghraifft y byrddau diogelu oedolion a phlant.

Roeddem yn llawn edmygedd o weld bod uwch reolwyr o'r CRC a'r NPS ill dau yn mynychu'r cyfarfod cysylltiad prawf chwarterol gydag ynadon a staff llys. Mae'n anarferol i'r CRC gael sedd wrth y bwrdd fel hyn. Gwelsom dystiolaeth bod y CRC wedi cyfrannu yn rheolaidd i newyddlen yr ynadon, gan gynnwys diweddaru dedfrydwyr ar eu model gweithredu, ac roedd hyn yn hyrwyddo cyfathrebu da gyda'r llysoedd. Er hyn, roedd y graddau yr oedd y CRC wedi egluro lefelau cyswllt gyda'r rhai hynny dan oruchwyliaeth, i'r dedfrydwr, yn aneglur.

Roedd system mewn lle o Alwadau Cynhadledd Trais Domestig dyddiol, wedi eu hwyluso gan yr heddlu, ac yn cynnwys y CRC, NPS ac asiantaethau eraill ar draws y pum ardal awdurdod lleol yng Ngwent. Roedd hyn yn galluogi rhannu dioed ac effeithiol o'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch tramgwyddwyr a dioddefwyr trais domestig. Roedd y galwadau hyn yn bwydo'r asesiadau risg a chynllunio rheoli risg, tra hefyd yn diweddaru asiantaethau eraill.

## Dwysâd risg

Roedd yna dîm dwysâd risg ac adolygu (Re-RAT) ledled Cymru oedd yn ymwneud â thrafodaethau gyda swyddogion cyfrifol cyn bod dwysâd risgiau yn cael eu cyflwyno, ac yn gwneud gwiriadau addas i'r system reoli achosion er mwyn cadarnhau gwybodaeth. Cawsom wybod gan reolwr y tîm bod 20 dwysâd fesul mis, ar gyfartaledd, ledled Cymru, gyda 5 o'r rhai hyn yn dod o Went. Yn ardal Gwent, roedd pob dwysâd yn cael eu trafod gyda'r uwch reolwr (Prif Weithredwr Cynorthwyol), cyn mynd i'r Re-RAT.

At ei gilydd, roedd prosesau dwysâd risg yn gweithio'n dda, a mesurau perfformiad yn cael eu bodloni. Roedd trafodaethau blaenorol rhwng swyddogion cyfrifol CRC a rheolwyr archwiliadau ansawdd yn y tîm dwysâd risg yn arwain at dderbyn bron pob dwysâd risg a gyflwynwyd. Ambell dro, fodd bynnag, nid oedd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei drosglwyddo i'r tîm dwysâd wrth gyflwyno'r dwysâd; nid oedd cyllun diwygiedig OASys a dedfrydu yn cael eu cynnwys bob amser.

Mewn un achos yn unig yn y sampl a archwiliwyd y digwyddodd y dwysâd o'r CRC i'r NPS. Roedd y dwysâd yn hollol briodol.

## Ailalw

Roedd y Re-RAT hefyd yn llofnodi ailalw ar gyfer pob achos, ac roeddynt yn ymwneud ag ailalw gan CRC pan oedd y risg o niwed wedi dwysâu i uchel. Roedd y sgyrsiau rhwng y rheolwr archwiliad ansawdd a'r swyddog cyfrifol ynghylch ailalw yn adeiladol.

Gwelsom achos mewn llys lle roedd torri gorchymyn cymunedol wedi ei reoli'n effeithiol. Roedd PSO y llys yn wybodus iawn am yr achos, ac yn medru darparu adroddiad ystyriol a phroffesiynol o'r hyn oedd wedi digwydd. Ond gwnaeth yr ynadon sylwadau, fodd bynnag, am y nifer gostyngol o dor-rheolau, a'r nifer o absenoldebau derbyniol a welir mewn adroddiadau am dor-rheolau. Mae'r daliadau hyn a wnaed yn gyson â chanfyddiadau yn ein harchwilad RAR thematig diweddar[38].

Mae tabl 7 yn dynodi'r galluogwyr allweddol a'r rhwystrau i waith y CRC a'r NPS yn cydweithio yn effeithiol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddiogelu'r cyhoedd:

**Tabl 7: Rhestr o alluogwyr a rhwystrau i'r Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd, mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o ddiogelu'r cyhoedd.**

| Galluogwyr | | Rhwystrau | |
|---|---|---|---|
| 1. | Roedd perthnasau cryfion a chyfathrebu effeithiol yn bodoli rhwng y CRC a'r NPS ar lefel uwch, gydag ymrwymiad o gydweithio i ddatrys y problemau oedd yn codi. | 1. | Nid oedd yr holl wybodaeth berthnasol, cynllun diwygiedig OASys a chynllun dedfrydu yn benodol, yn cael eu cyflwyno bob amser i'r tîm Re-Rat at ddibenion ystyried achosion i'w dwysáu. |
| 2. | Roedd cyfraniad y CRC a'r NPS i'r Galwadau Cynhadledd Trais Domestig dyddiol yn golygu bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd hollgynhwysfawr ac amserol. | | |

[38] Arolygiaeth Prawf EM (2017) Gweithredu a throsglwyddo Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu.

# Lleihau aildroseddu

## Effeithioldeb CRC

Nid oedd y CRC yn ddigon effeithiol wrth drosglwyddo ymyriadau i leihau aildroseddu.

### Asesu a chynllunio

Ar ddechrau'r ddedfryd, roedd yr NPS wedi darparu asesiad digonol o'r tebygolrwydd o aildroseddu yn y mwyafrif mawr o achosion a ddyranwyd i'r CRC. Roedd swyddogion cyfrifol CRC wedi adeiladu ar yr wybodaeth hon a gwneud eu hymholiadau eu hunain er mwyn deall yn well y rhesymu tu ôl i ymddygiad troseddol, gan gwblhau aseisad amserol o ansawdd digonol ymron pob achos.

Roedd cynlluniau dedfrydu addas mewn lle i gefnogi ymataliad ymron tri-chwarter o achosion. Roedd cynllunio ar ei gryfaf mewn meysydd i fynd i'r afael â throseddu, lles emosiynol, a meddwl ac ymddygiad; roedd wannaf mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Rhoddwyd sylw i ffactorau diogelu hefyd yn nhri-chwarter yr achosion, gan ddangos bod ymagwedd ar sail cryfder dan ystyriaeth.

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd Anne wedi ei dedfrydu i orchymyn cymunedol am ddwyn o siopau. Roedd ganddi hanes hir o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Roedd yr asesiad a'r cynllun cychwynnol yn dangos dealltwriaeth dda o Anne, ei hanes a'i disgwyliadau mewn bywyd. Roedd cyswllt clir rhwng yr asesiad a'r cynllun, a oedd yn dynodi blaenoriaeth y materion i fynd i'r afael â hwy. Roedd y swyddog cyfrifol yn adnabod Anne eisoes ac roedd hyn yn amlwg trwy gydol yr asesiad, gan ei fod yn cofnodi profiadau perthnasol bywyd yn fanwl a pha waith oedd wedi neu heb ei wneud yn flaenorol.

Roedd y swyddog cyfrifol yn adnabod Anne ac roedd ganddo afael reit dda ar natur dyrys yr achos a'r anhawsterau tebygol a gyflwynwyd wrth fynd i'r afael â materion perthnasol, adnabod yr angen i barhau gydag ymyriadau camddefnyddio sylweddau yn ogystal â chynghori arbenigol trwy asianaeth allanol.

Ymhlith achosion gyda chynlluniau annigonol, roedd enghreifftiau o ymarfer gwael oedd yn dangos diffyg gwybodaeth y swyddog cyfrifol o'r achos, fel yn yr enghraifft sy'n dilyn:

**Enghraifft o ymarfer gwael:**

Roedd Barry wedi ei ganfod yn euog o ladrad, a gyflawnwyd i gyllido ei ddefnydd o amffetaminau. Yn rhannol o ganlyniad i'r drosedd, roedd Barry yn ddi-waith. Er gwaethaf hyn, roedd y cynllun yn brin o amcanion addas, ac nid oedd cyflogaeth a chamddefnydd o gyffuriau wedi cael y sylw priodol yn y cynllun.

### Trosglwyddiad

Tra bod asesiadau a chynllunio yn foddhaol at ei gilydd, nid oedd digon wedi ei wneud i drosglwyddo'r gwaith a gynlluniwyd.

Roeddem wedi asesu bod cynnydd yn ddigonol mewn ychydig dros hanner yr achosion yr oeddem wedi eu samplo. Lle roedd cynnydd yn annigonol, roedd hyn yn bennaf am nad oedd ymyriadau addas, gweithgareddau neu wasanaethau ar gael.

Y meysydd pennaf lle roedd angen oedd meddwl ac ymddygiad; camddefnyddio cyffuriau; ffordd o fyw a chydnbaod; camddefnydd o alcohol a llety. Mewn achosion lle roedd yr angen wedi ei ddynodi, gwelwyd bod y ddarpariaeth yn ddigonol i'r graddau a ganlyn:

**Tabl 8: Sgorau digonedd o ganfyddiadau yr arolygiad perthnasol i'r anghenion pennaf a aseswyd o'r achosion yn sampl archwiliad y CRC, wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.**

| Maes yr anghenion a aseswyd (yn nhrefn blaenoriaeth) | % yr achosion lle roedd ymyriadau wedi eu trosglwyddo yn ddigonol |
|---|---|
| Meddwl ac ymddygiad | 53 |
| Camddefnydd o gyffuriau | 44 |
| Ffordd o fyw a chydnabod | 57 |
| Perthnasau | 55 |
| Camddefnydd o alcohol | 63 |
| Llety | 29 |
| Lles emosiynol | 57 |
| Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | 0 |
| Agweddau at droseddu | 40 |

Roedd y CRC wedi cynhyrchu cyfarwyddiadur gwasanaethau trawiadol, yn manylu ar ddarpariaeth rhaglenni achrededig ac RARs. Cawsom wybod bod y CRC yn dileu yn raddol Rheolaeth Trais a Dicter mewn Yfwyr Byrbwyll, Adeiladu Sgiliau ar gyfer Adfer a Gyrwyr Fu'n Yfed oherwydd prinder y galw. Roedd rhai o'r meysydd gwaith hyn yn cael eu cwmpasu gan weithgaredd RAR.

Roeddem wedi cynnal grŵp trafod gyda defnyddwyr gwasnaethau sydd yn defnyddio'r Rhaglen BBR. Roedd rhai wedi aros hyd at naw mis i ddechrau'r rhaglen, tra bod eraill wedi dechrau ar unwaith. Cafodd y rhaglen ei throsglwyddo yng Nghasnewydd, gyda rhai cyfranogwyr yn gorfod teithio o bellter, er bod costau teithio ar y bws wedi eu talu. Roedd pob un o'r cyfranogwyr wedi dweud bod y rhaglen yn eu helpu i herio'u meddyliau a gwneud newidiadau. Gwnaethpwyd sylwadau cadarnhaol am gysondeb y grŵp, ansawdd yr hwyluswyr a chynnwys y cwrs fel ei gilydd.

Gwelsom dystiolaeth glir o oedi mewn dechrau rhaglenni achrededig, neu raglenni heb eu dechrau o gwbl yn rhai o'r achosion yr oeddem wedi eu hadolygu, gyda phob un ohonynt wedi bod yn rhedeg am tua naw mis. Nid oedd yr enghraifft a ganlyn yn annodweddiadol

**Enghraifft o ymarfer gwael:**

Cafodd Dylan ei ryddhau o'r carchar ar drwydded. Ni chafodd yr un o'r ymyriadau a ddynodwyd yn ei gynllun dedfrydu, nac yn amodau ei drwydded, eu trosglwyddo.

Ni aethpwyd i'r afael ag anghenion rhifedd a llythrennedd Dylan er i'r rhain gael eu dynodi'n glir fel problem gan Dylan ei hun a'r swyddog cyfrifol. Cafodd lefel y cyswllt ei ostwng yn rhy gyflym heb dystiolaeth o newid ym meddwl nac ymddygiad Dylan, ac roedd yn ymddangos fel mai sgyrsiau ynghylch yr hyn oedd yn digwydd oedd y sesiynau goruchwylio. Ni chynhaliwyd ymweliadau â'r cartref.

Roedd gan Dylan amod trwydded i fynychu'r TSP, ond ni wnaed unrhyw waith rhagbaratoadol i gefnogi hyn, ac roedd y dyddiad dechrau arfaethedig ar gyfer y rhaglen wedi syrthio i'r cyfnod goruchwylio ôl-ddedfrydu ac yna cafodd ei anghofio. Yn fuan wedi hyn cytunodd rheolwr i gyfeirio'r achos i'r Hyb Mewn-Cysylltiad, gan leihau cyswllt ymhellach, er nad oedd wedi ymgymryd ag unrhyw ymyriadau bwriadol na chwblhau'r TSP.

Roeddem wedi nodi diffyg gwaith ar ymddygad troseddol yn rhai o'r achosion a adolygwyd. Yn aml sgwrs oedd y sesiynau goruchwylio, yn hytrach na sesiynau wedi eu strwythuro neu wedi eu rhoi mewn trefn. Dywedodd swyddog cyfrifol wrthym: “*Mae gennyf lawer o achosion dyrys sydd angen lefel uchel o ymwneud. Rwy'n ei chael yn anodd cadw fyny ac mae fy nghydweithwyr a fi dan lawer o bwysau ac yn teimlo straen. Mae'r nifer o ffurflenni i'w llenwi, ar y cyd â lefelau is o gefnogaeth gweinyddol wedi cynyddu ein llwyth gwaith, ac rwy'n disgwyl i hyn waethygu wrth i ragor o staff adael.* ”.

Er hyn, roedd peth gwaith da yn cael ei drosglwyddo gan swyddogion cyfrifol unigol i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau.

Fe'n gwnaed yn ymwybodol bod tîm ymyryiadau newydd yn y broses o gael ei sefydlu, gyda staff a rheolwyr wedi eu penodi yn arbennig i drosglwyddo ymyriadau. Roedd hyn fod yn barod erbyn diwedd Mawrth, ac roedd y CRC yn obeithiol iawn y byddai'r tîm ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth i'r gwaith ymddygiad troseddol a fyddai'n cael ei drosglwyddo yn y dyfodol.

## Rheoli Integredig Troseddwyr

Roedd gwasanaeth IOM Gwent yn disgyn dan nawdd IOM Cymru a'i oruchwylio gan Fwrdd IOM Gwent a'r grŵp llywio. Roedd yn wasanaeth wedi ei seilio yn y gymuned, yn uchel ei barch, wedi sefydlu ers cryn amser, a'i gefnogi gan ystod o gyrff cymunedol ac asiantaethau. Roedd tîm craidd wedi ei gyd-leoli, wedi ei reoli gan arweinydd tîm yr NPS ac yn cynnwys staff prawf, yr heddlu a chamddefnyddio sylweddau, yn gweithio'n agos â'i gilydd i reoli diogelu'r cyhoedd a'r risgiau troseddu a ddaw o du defnyddwyr gwasanaethau, ac i gynnig gwasanaethau adeiladol i'w helpu i fynd i'r afael â materion perthnasol.

Roedd llawer o'r defnyddwyr gwasnaethau a oruchwyliwyd gan y tîm hwn yn arwain bywydau anniben iawn ac yn gyfrifol am y gyfradd uchel o droseddau yn eu cymunedau. Roedd gan fintai yr IOM fynediad parod i wasanaethau lleol i helpu mynd i'r afael â'u hanghenion. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd; darpariaeth ETE; cyngor ar fudd-daliadau; a gwasanaethau lletya. Roedd mecanweithiau rheoli, megis amodau trwydded, ymweliadau â'r cartref gan yr heddlu, tagio electronig a mesurau eraill ar gael i'r tîm, fel y medrent ymateb pan fyddai'r tebygolrwydd o aildroseddu yn dwysáu.

Roeddem wedi canfod bod y lleoliad yn y gymuned a phresenoldeb staff o ystod o sefydliadau, wedi helpu creu diwylliant o ymwneud a oedd yn hyblyg a grymus. Medrai defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn troseddu yn gyson ac yn byw bywydau anniben ganfod ffyrdd o ymwneud yn effeithiol gyda'r gwasanaethau, yn hytrach na mewn apwyntiadau sefydlog mewn swyddfeydd prawf traddodiadol. Roedd gan y tîm yr hyblygrywdd i ymgymryd ag ymweliadau â'r cartref pan oedd angen gwneud hynny ac roedd y rhain yn ffordd amhrisiadwy o fonitro amgylchiadau'r defnyddwyr gwasanaethau. Roedd cyfnewid gwybodaeth rhwng staff IOM yn ddiymdroi ac wedi ei seilio ar ymddiriedaeth, hyder a pharch rhwng y gweithwyr proffesiynol oedd ynghlwm; roedd hyn yn helpu sicrhau mynd i'r afael â'r blaenoriaethau.

Adeg yr arolygiad, roedd tîm yr IOM yn goruchwylio tua 200 o achosion. Cytunwyd ar yr achosion hyn gan eu proses dargedu, i sicrhau bod yr adnoddau amlasiantaeth yn canolbwyntio ar y grŵp troseddwyr mwyaf toreithiog yng Ngwent. Roedd gan y CRC bedwar swyddog yn yr IOM, ac roedd gan bob un ohonynt lwyth achosion o tua 30 achos. Roedd hyn yn hydrin ac yn golygu bod gwaith o ansawdd da yn cael ei wneud i leihau ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym bod y llwyth achosion yn mynd i godi (i 45 achos fesul swyddog cyfrifol) o fis Ionawr 2017.

Gwelsom enghraifft o gyfarfod tasgio dyddiol IOM. Yn hwn, roedd y tîm cyfan yn cwrdd ac yn adolygu'r achosion blaenoriaeth o bob rhan o ardal y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Roedd y broses effeithiol hon yn galluogi'r holl staff i gael eu diweddaru ar y datblygiadau diweddaraf yn yr achosion. Cytunwyd ar weithrediadau ac roedd cydlyniad mewnbwn staff yn ddeheuig. Roedd y tîm

yn rhoi'r sylw dyledus i gydbwyso diogelu'r cyhoedd a'r risg o faterion aildroseddu, gyda phryder ynghylch bresgusder defnyddwyr gwasanaethau a chyfarfod â'u hanghenion adsefydlu. Roedd eu gwybodaeth fanwl am yr unigolion, y cymdogaethau, y materion oedd gerbron a'r canlyniad tebygol yn deillio o'r ymagweddau amrwyiol a ddefnyddid gydag unigolion, yn rhoi hyder i ni bod y cyfan y medrid ei wneud i leihau troseddu pellach ac i hyrwyddo adsefydlu yn cael ei wneud.

Roedd angen i'r cynllunio gan uwch reolwyr ar gyfer datblygiad strategol yr IOM fynd i'r afael yn gyflym â chyfraniad cyfredol y CRC i'r gwasanaeth. Yr arwyddion cyfredol oedd bod y CRC yn mynd i leihau eu buddsoddiad i 50% (trwy symud o bedwar aelod o staff i ddau) yn y dyfodol agos. Byddai hyn yn cael effaith ganlyniadol ar gapasiti'r gwasanaeth: caiff tua dwy-draean achosion yr IOM eu rheoli gan y CRC.

Roedd potensial ymagwedd IOM at weithio gyda throseddwyr yn ategu menter dan adolygiad yn yr ardal. Roedd cynllun peilot Rheolaeth Integredig Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Cymru, a redir gan NOMS, yn cael ei ystyried ar y pryd gan asiantaethau partner. Byddai hyn yn gweld datblygiad o fodel IOM i gwmpasu gwaith gyda'r rhai hynny sydd yn cyflwyno'r risg uchaf o niwed i eraill yn eu cymunedau, gan gynnwys ffocws ar droseddwyr trais domestig a all fod yn dramgwyddwyr lluosog, a gweithio gyda dioddefwyr cyson. Yn lleol, roedd hyn yn dangos y parch uchel a delir i'r tîm IOM ar draws asiantaethau.

## Gofynion gweithgaredd adsefydlu

Roedd gan y CRC gyfres o RARs, wedi eu disgrifio yn eu cyfarwyddiadur gwasanaethau a gyhoeddwyd, ac yn ddiweddar roeddynt wedi datblygu dau RAR newydd: gwydnwch emosiynol ac ymddygiadau caethiwus. Yn ogystal roedd RAR addas ar gyfer troseddwyr benywaidd, wedi ei drosglwyddo fel rhaglen waith grŵp. Roedd y rhan fwyaf o'r RARs wedi eu trosglwyddo yn fewnol gan y CRC.

Defnyddiwyd y gwaith grŵp RAR Perthnasau Parchus, nad yw yn achrededig, fel dewis i'r rhaglen achrededig BBR, a gwelsom ambell enghraifft dda o ble roedd Perthnasau Parchus yn gweithio'n fuddiol, fel yn yr enghraifft sy'n dilyn:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd Alec, 30 mlwydd oed, ar drwydded am dorri rheolau gorchymyn ataliol yn erbyn ei gyn bartner. Roedd asesiad dioed a digonol a chynllun mewn lle ar gyfer rhyddhau Alec ar drwydded. Roedd wedi ei dargedu yn briodol ar gyfer RAR Perthnasau Parchus. Er ei fod yn swil ar y cychwyn ynghylch gweithio mewn grŵp, gydag anogaeth gan y swydog cyfrifol roedd wedi cydymffurfiio'n dda, ac roedd yn ymddangos fel petai wedi newid ei agweddau, ei feddwl a'i ymddygiad o ganlyniad i'r gwaith a wnaed yn y grŵp.

Tra nad oedd dogfennaeth OASys wedi ei adolygu yn ffurfiol, roedd y modd yr oedd y swyddog cyfrifol wedi adolygu cynnydd Alec yn drawiadol. Roedd hi wedi gweithio gydag ef trwy 'graff boddhad', gan ofyn iddo fesur y cynnydd yr oedd wedi ei wneud ar bob un o'i anghenion perthnasol i'w droseddu a'u sgorio allan o ddeg. Ar gyfer yr elfennau hynny oedd yn brin o'r deg, cafodd ganddo i ddweud wrthi sut y medrai wneud cynnydd pellach i gyrraedd y marciau uchaf.

Yn y ffordd hon, roedd yn ymwneud yn llwyr â'r dull hwn o adolygu ei gynnydd. Roedd Alec wedi cydymffurfio yn llwyr gyda gofynion ei ddedfryd. Nid oedd wedi aildroseddu ac roedd wedi gwneud cynnydd amlwg yn ei feddyliau, ei agweddau a'i ymddygiad.

At ei gilydd, fodd bynnag, fel gyda'n canfyddiadau ym meysydd eraill y PCC, roedd ansicrwydd cyffredinol yng Ngwent ynghylch diwrnodau RAR a sut y dylid eu defnyddio. Yn benodol, roeddem wedi canfod bod trosglwyddo diwrnodau RAR yn cael eu cofnodi yn anghyson. Nid oedd staff yn glir ynghylch beth oedd yn ffurfio diwrnod RAR, er gwaethaf canllawiau ymarfer a gyhoeddwyd gan reolwyr. Roedd yn galonogol, fodd bynnag, i weld bod y CRC ar fin dosbarthu dogfen wybodaeth

RAR i ddedfrydwyr. Roedd Prif Weithredwr Cynorthwyol y CRC yn mynychu'r cyfarfodydd cyswllt prawf chwarterol, ac yn cyfrannu yn rheolaidd i newyddlenni ar gyfer y llysoedd, ac roedd hyn, yn amlwg, yn helpu cyfathrebu a dirnadaeth.

## Gwaith di-dâl

Roedd trosglwyddiad gwaith di-dâl yn gymysg. Roedd staff yn canolbwyntio ar orffen oriau gwaith di-dâl, ar draul gwaith ymddygiad troseddol mewn rhai achosion.

Yn wreiddiol roedd gan y CRC bum swyddog yn cynnal achosion unigol o waith di-dâl, er bod rhai wedi gadael, ac eraill wedi symud i'r rheolaeth troseddwyr generig. Buom yn siarad â rheolwr achos oedd yn dal rhwng 120 -150 achos o waith di-dâl. Roedd gan y CRC restr o brosiectau cyfredol cymunedol, a'r rhan fwyaf yn ymwneud â chodi sbwriel, gwaredu graffiti, a phaentio, er bod rhai lleoliadau unigol, er enghraifft yn Lloches y Tylluanod neu eglwysi lleol. Yn yr enghraifft sy'n dilyn, roedd anghenion amrywiaeth yr unigolyn wedi eu hystyried wrth benderfynu ar ei lleoliad hi mewn gwaith di-dâl.

**Enghraifft o ymarfer da:**

Cafodd Lucy nifer o oriau o waith di-dâl fel rhan o'i gorchymyn dedfryd ohiriedig. Y disgwyliad arferol oedd, gan ei bod yn fenyw, y byddai'n cwblhau'r oriau hyn mewn siop elusen. Ond, hi oedd y prif ofalwr. Derbyniwyd y byddai'n anodd i Lucy fynd i weithio yn y siop elusen, felly gwnaed trefniadau eraill iddi wneud ychydig o waith glanhau mewn eglwys leol. Roedd gofyn iddi wneud ond dwy awr ar y tro, ar unrhyw adeg rhwng 09:00 a 16:00, a oedd yn gweddu'n iawn gyda'i hymrwymiadau gofalu.

Dywedodd Lucy wrthym ei bod yn caru'r gwaith a'r amgylchedd felly roedd wedi parhau i weithio'n wirfoddol yn yr eglwys unwaith y daeth ei horiau gwaith di-dâl i ben. Roedd hefyd erbyn hyn yn mynd i'r eglwys ar y Sul, ac yn croesawu'r integreiddio hyn i'w chymuned leol.

Gwelsom dystiolaeth yn yr achosion yr oeddem wedi eu harchwilio o ohirio rheolaidd pan oedd defnyddwyr gwasanaethau yn cyrraedd i wneud gwaith di-dâl, neu bod apwyntiadau yn cael eu dileu oherwydd prinder staff. Tra'n gwylio trefniadau yn y dderbynfa yng Nghasnewydd, nododd arolygwr bod defnyddwyr gwasanaethau wedi cael cais i ddod mewn am 08:45 i adrodd ar gyfer eu gwaith di-dâl. Nid oedd y fan oedd fod i'w casglu wedi cyrraedd am 09:55 pan oedd yn rhaid i'r arolygwr adael. Nid yw oediadau fel y rhai hyn yn hybu ymwneud cadarnhaol gyda defnyddwyr gwasanaethau.

## Cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau

Roedd y defnyddwyr gwasanaethau y buom yn siarad â hwy yn gadarnhaol am y gwasanaethau prawf, ond roeddem wedi canfod lefelau uchel o newidiadau yn y swyddog cyfrifol.

Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau wedi profi sawl newid yn y swyddog cyfrifol, ac roedd hyn yn effeithio ar gysondeb y berthynas. O'r achosion yr oeddem wedi eu harolygu, roedd gan dros hanner ddau neu fwy o swyddogion yn gyfrifol am eu hachos ers eu dynodi. Dywedodd uwch reolwyr wrthym bod y lefel uchel hyn o newid yn digwydd yn bennaf oherwydd salwch a chyfnodau mamolaeth.

Buom yn siarad gyda thri defnyddiwr gwasanaethau yr oeddem wedi adolygu eu hachosion, a chwe defnyddiwr gwasanaethau arall mewn grwpiau ffocws, gan gynnwys dwy ddefnyddwraig fenywaidd. Yn gyffredinol roedd ganddynt farn gadarnhaol am eu gwaith gyda phrawf, gan ddweud bod eu swyddogion cyfrifol wedi gwrando arnynt ac wedi ystyried eu hanghenion.

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaethau:" *Mae fy rheolwr troseddu i wedi bod yn wasanaethgar iawn ac yn gwrando'n dda. Dangosodd i fi sut i feddwl ac ymateb ac mae hynny wedi fy helpu*

*llawer. Roedd hi'n gyfeillgar ac yn dda i siarad â hi. Dangosodd i fi sut i reoli fy meddyliau yn well ac i ddelio gyda'r straen oedd arnaf. Roedd yn dda"*.

Dywedodd defnyddiwr gwasanaethau arall: "*Mae fy rheolwr troseddau i wedi fy helpu gyda llety a chyffuriau ac rwy'n ddiolchgar am hynny. Nid yw hi'n siarad lawr â fi ac mae'n ddilys wrth geisio fy helpu*".

Roedd gan bob un o'r menywod y buom yn arolygu eu hachosion swyddogion cyfrifol benywaidd. Roedd cyfle i fenywod adrodd yn adeilad Cymorth i Fenywod Casnewydd, neu mewn swyddfeydd prawf yn ystod cyfnod adrodd i fenywod yn unig ar foreau Llun. Ni welsom yr un enghraifft o fenywod yn cael eu gosod fel menywod yn unig mewn grwpiau ar gyfer gwaith di-dâl. Roedd hyn yn arfer da, ac yn adlewyrchu gofynion cytundebol penodol ar gyfer gweitho gyda throseddwyr benywaidd.

Gwelsom dystiolaeth o amrywiaeth defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hystyried yn briodol, er enghraifft eu hanghenion iechyd meddwl. Tra'n gwylio trefniadau derbynfa, nododd arolygwr bod dau gyfieithydd wedi eu darparu i helpu cefnogi dau ddyn o Slofacia gyda'u sesiwn ragarweiniol i'r grŵp. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r angen i gyfieithu i'r Gymraeg yn yr achosion yr oeddem wedi eu harolygu, er i ni nodi bod llenyddiaeth a gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg os oedd eu hangen neu os oedd cais amdanynt.

## Adolygu'r cynnydd

Roedd swyddogion cyfrifol wedi adolygu cynnydd yn ddigon da mewn llai na hanner yr achosion yn y sampl, ac roedd cynlluniau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau mewn traean o achosion yn unig. Yn ein barn ni roedd hyn yn annigonol ac yn debygol o arwain at golli cyfleoedd i hybu ymataliad.

## Effaith ac effaith bosibl

Roeddem yn ystyried nad oedd digon o gynnydd wedi ei wneud tuag at ganlyniadau aildroseddu. Yr eithriadau i hyn oedd mynd i'r afael â phroblemau perthnasau ac iechyd emosiynol a lles. Roedd yn arbennig o ddymunol gweld mewn dwy-draean o achosion perthansol, bod cynnydd wedi ei wneud yng nghyswllt iechyd emosiynol a lles. Gwnaed y cynnydd lleiaf mewn perthynas ag ETE, lle nad oedd cynnydd wedi ei wneud yn unrhyw un o'r achosion, ac yn 20% o'r achosion roedd dirywiad.

Wedi dweud hynny, roedd bron i dri-chwarter y defnyddwyr gwasanaethau yr oeddem wedi adolygu eu hachosion heb aildroseddu adeg ein arolygiad. I'r rhai hynny oedd wedi, roedd amlder a difrifoldeb eu haildroseddu wedi aros yr un fath yn bennaf.

Mae Tabl 9 yn dynodi'r galluogwyr allweddol a'r rhwystrau i waith y CRC i atal aildroseddu:

**Tabl 9: Rhestr o alluogwyr a'r rhwystrau i'r CRC mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o ddiogelu'r cyhoedd.**

| **Galluogwyr** | | **Rhwystrau** | |
|---|---|---|---|
| 1. | Roedd asesiadau a chynllunio i leihau aildroseddu yn darparu sylfaen dda ar gyfer bwrw ymlaen gyda'r gwaith. | 1. | Roedd y gwaith a drosglwyddwyd gan y CRC i fynd i'r afael â a rheoli'r tebygolrwydd o aildroseddu yn brin o ran argaeledd ac eglurder pwrpas fel ei gilydd. |
| 2. | Roedd ymagwedd wedi hen sefydlu ac amlasiantaeth oedd yn gweithredu'n effeithiol i'r IOM, a'r CRC wedi integredddio'n dda | 2. | Roedd oediadau wrth i ddefnyddwyr gwasanaethau gael mynediad i raglenni achrededig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | iddo. | | |
| 3. | Rhoddwyd ystyriaeth benodol i anghenion defnyddwyr gwasanaethau benywaidd, ac roedd ymyriadau penodol i fenywod ar gael. | 3. | Roedd staff yn ddryslyd ynghylch pwrpas RARs a beth oeddynt yn golygu. |
| 4. | Roedd cyfleoedd i'r CRC roi gwybod i ddedfrydwyr am y gwaith mae'n ei drosglwyddo. | 4. | Roedd adolygiadau cynnydd yn annigonol. |

## Effeithioldeb yr NPS

Roedd ansawdd y gwaith a drosglwyddwyd gan yr NPS yn dderbyniol yn gyffredinol ac effaith y gwaith hwn oedd bod y rhan fwyaf o droseddwyr yn llai tebygol o aildroseddu o ganlyniad. Yma fel mewn tiriogaethau eraill, roedd yr NPS wedi ei siomi gan amrywiadau daearydol mewn perfformiad, gyda rhai ardaloedd yn gwneud llawer yn waeth nac eraill.

### Adroddiadau o'r llys

Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau roeddem wedi eu gweld yn dynodi ac yn dadansoddi'r meysydd cysylltiedig â throseddu yn dda, ac roedd yn ddymunol gweld, ym mhob achos, bod gwybodaeth ynghylch pryderon am ddiogelu wedi ei ddarparu yn ddigonol. Ym mhob achos, roedd y cynnig a roddwyd i'r llys ynghylch dewisiadau dedfrydu wedi ffocysu yn glir ar y materion cywir.

Mae dau lys ynadon yng Ngwent: Cwmbran a Chasnewydd, a Llys y Goron yng Nghasnewydd. Roedd gan yr NPS dîm ymroddedig o ddeg aelod o staff: uwch swyddog prawf (SPO), tri swyddog prawf (POs) a chwe swyddog gwasnaeth prawf (PSOs). Roedd dau o'r PSOs yn gweithredu hefyd fel swyddogion gorfodi, yn gwirio sicrwydd ansawdd tor-rheolau cyn iddynt fynd gerbron y llys.

Roedd yr ynadon y buom yn siarad â hwy ran amlaf o lawer yn gadarnhaol am waith llys yr NPS, ac yn rhoi enghreifftiau o ynadon yn cymeradwyo staff prawf unigol yn y llys. Roeddynt yn dweud bod yr adroddiadau yn dda a bod ansawdd wedi gwella yn ddiweddar.

Treuliodd arolygwyr amser yn Llys Ynadon Casnewydd. Roeddem wedi hwylustod ac offer da ar gyfer staff llys NPS, gan gynnwys myndediad i'r system reoli achosion, nDelius. Roedd staff y llys roeddem wedi eu gwylio yn cynrychioli'r gwasanaeth yn dda i ynadon, clercod y llys a swyddogion eraill y llys. Roedd trefniadau rhyngweithio da rhwng staff y llys a'r NPS a'r CRC adeg y dosraniad, gan olygu bod trefniadau ar gyfer apwyntiadau cychwynnol i ddefnyddwyr gwasanaethau yn glir ac yn gwneud cychwyniad dioed ac effeithiol i'r gorchymyn yn fwy tebygol. Roedd staff NPS yn gweithio yn y llys wedi eu hyfforddi a'u cefnogi yn dda. Roedd trefniadau sicrwydd ansawdd yn golygu bod adroddiadau o ansawdd da a bod penderfyniadau ar ddosrannu yn gywir. Roedd offeryn gwella ymarfer gan reolwr y llys ar gyfer adroddiadau o'r llys o ddiddordeb penodol.

### Dosrannu achosion

Nid oedd unrhyw broblemau amlwg gyda dosrannu naill ai oddi mewn i'r NPS, nac oddi wrth yr NPS i'r CRC. Yn y sampl a archwiliwyd, roedd dosraniadau yn gywir ymhob achos heblaw un.

Roedd yr asesiadau adeg dosrannu achosion i'r NPS wedi eu tybio i fod yn ddigonol mewn mwy na dwy-draean o achosion at ei gilydd. Roedd hyn yn ddarlun cymysg ar draws y cymunedau daearyddol, gyda Chasnewydd yr ardal gryfaf lle roedd y mwyafrif mawr o asesiadau wedi eu gwneud yn dda.

## Asesu a chynllunio

O fewn cyfnod priodol yn dilyn dosraniad, roeddem wedi canfod bod yr asesiad mewn perthynas â lleihau aildroseddu yn ddigonol yn nhri-chwarter yr achosion NPS at ei gilydd. Unwaith yn rhagor, roeddem wedi nodi darlun hynod o gymysyg, lle roedd pob asesiad wedi eu gwneud yn dda yng Nghasnewydd, gyda pherfformiadau llawer gwaelach mewn ardal arall. Er bod rheolwyr wedi gweld hyn, byddem yn eu hannog i gymryd pob cam angenrheidiol i fynd i'r afael â'r rhesymau ar gyfer yr amrywiadau daearyddol hyn mewn perfformiad.

Roedd cynlluniau dedfrydau mewn lle mewn ychydig yn llai na thri-chwarter yr achosion. Ymhlith y rhain, gwelsom rai enghreifftiau rhagorol o gynllunio. Meddai arolygwr: "*Roedd hyn yn ddosbarth meistr ar sut i dynnu cynllun dedfrydu ynghyd. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwybod sut mae cynllun dedfrydu da yn edrych ddod yma!*"

**Enghraifft o ymarfer da:**

Cafodd Simon euogfarn am dorri rheolau ei orchymyn ataliol a chlwyfo maleisius. Roedd ei gynllun dedfrydu yn cynnwys nodau perthnasol gan gynnwys un wedi ei gysylltu â ffactorau diogelu cefnogol. Roedd cynlluniau manwl mewn lle gydag amlinelliad clir o bwy fyddai'n gwneud beth mewn perthynas â phob nod. Roedd hon yn enghraifft ragorol o sut i ddefnyddio cynllun yr OASys yn effeithlon a phriodol.

Ond fe welsom rai cynlluniau nad oedd cystal ymhlith y sampl, fel yn yr achos a ganlyn:

**Enghraifft o ymarfer gwael:**

Daeth Michael allan o'r carchar yn dilyn ei alw'n ôl am fygwth partner newydd dioddefwr Michael o'i droseddau hanesyddol. Roedd amodau ei drwydded yn gwahardd cyswllt gyda'r unigolyn hynny.

Nid oedd y cynllun dedfrydu yn cynnwys nod ynghylch ymwybyddiaeth dioddefwr na meddwl am y canlyniadau, na rhaglen debyg i BBR.

## Trosglwyddiad

Roeddem wedi canfod bod cynnydd boddhaol wedi ei wneud wrth drosglwyddo'r ymyriadau gofynnol yn hanner yr achosion roeddem wedi eu hadolygu.

O'r blaenoriaethau a ddynodwyd, roeddem yn ystyried mai meddwl ac ymddygiad oedd yr angen pennaf o bell fordd, gan eu bod yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion yr NPS. Roedd y camddefnydd o alcohol yn ffactor mynych hefyd yn hanner yr holl achosion yn y sampl.

**Tabl 10 Sgorau digonedd o ganfyddiadau yr arolygiad perthnasol i'r anghenion pennaf a aseswyd o'r achosion yn sampl archwiliad y CRC, wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.**

| Maes yr anghenion a aseswyd (yn nhrefn blaenoriaeth) | % yr achosion lle roedd ymyriadau wedi eu trosglwyddo yn ddigonol |
|---|---|
| Meddwl ac ymddygiad | 60 |
| Camddefnydd o alcohol | 63 |
| Lles emosiynol | 43 |
| Ffordd o fyw a chydnabod | 43 |
| Perthnasau | 50 |
| Agweddau at droseddu | 80 |
| Llety | 75 |

Roeddem yn falch gweld bod ymyriadau digonol yn cael eu trosglwyddo mewn perthynas â llety yn nhri-chwarter yr achosion perthnasol.

Roedd llawer o'r gwaith a wnaed gan swyddogion cyfrifol ar sail un-i-un. Gwelsom nifer o enghreifftiau lle roedd ymyriadau wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau, fel yn yr achos a ganlyn:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Dyn 24 oed oedd Chris gyda sgôr risg uchel iawn o aildroseddu, yn adlewyrchu ei droseddu treisgar toreithiog. Cafodd ddedfryd o garchar am drosedd yn cynnwys trais domestig, ac roedd ei feddwl o ganlyniad a'i ymateb treisgar i sefyllafoedd yn achosi pryder. Roedd Chris wedi cwblhau BBR yn y cyfnod cymharol fyr y bu yn y carchar ac roedd wedi cydymffurfio â'r rhaglen am ei fod yn daer am gadw cysylltiad gyda'i ferch ifanc, a oedd dan warcheidiaeth Plentyn mewn Angen. Roedd yn sylweddoli os na fyddai'n newid ei ffyrdd, byddai gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ei rwystro rhag cael unrhyw gyswllt â'i ferch.

Wedi ei ryddhau, roedd y swyddog cyfrifol wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu ac adolygu rhannau perthnasol y rhaglen BBR. Cafodd gwaith rhagorol ei drosglwyddo; roedd hyn yn cynnwys y defnydd o weithlyfrau, er enghraifft, o'r rhaglen 'Working Dads', ar faterion megis 'beth sy'n gwneud tad da?'

Llwyddodd Chris yn dda iawn. Cafodd gyflogaeth ymhen deufis o gael ei ryddhau, roedd yn ymwneud âgwaith yn ffocysu ar droseddu, roedd wedi cadw at y cynllun Plentyn mewn Angen, ac, oherwydd ei gydymffurfio, yn raddol cafodd dreulio mwy a mwy o amser gyda'i bartner a'i ferch. Doedd dim tystiolaeth o yfed na chyffuriau, a fu'n nodweddiadaol o'i fywyd a'i droseddu ynghynt. Adeg ein harolygiad, nid oedd wedi aildroseddu ac roedd amlder yr apwyntiadau wedi eu lleihau yn briodol.

Gwelsom dystiolaeth o waith da yn cael ei drosglwyddo gan y gwasanaeth cyffuriau ac alcohol lleol, GDAS, gyda rhai camddefnyddwyr sylweddau hynod o gymhleth ac anrhefnus, fel yn yr achos hwn:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd gan Thomas, 30 oed, hanes o droseddu ynghlwm ag alcohol a chyffuriau. Cafodd euogfarn o drosedd dreisgar, oedd yn cynnwys ei fod wedi gyrru car at dri dioddefwr, gan beri niwed difrifol i un ohonynt. Roedd wedi bod yn yfed yn drwm ar y pryd.

Cafodd ei atgyfeirio yn ddioed at GDAS. Gwnaed gwaith rhagorol gan gynnwys lefel uchel o ymyriad gan y gwasanaeth cyffuriau ac alcohol, a gwaith cartref i Thomas, ar y cyd â chyfathrebu da iawn. Yna roedd y swyddog cyfrifol wedi atgyfnethu'r gwaith trwy sesiynau un-i-un gyda Thomas a chofnodi trafodaethau manwl am ei yfed.

Roedd Thomas wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â lleihau ei ddefnydd o alcohol. Roedd ei gydymffurfio yn ardderchog a doedd dim aildroseddu.

Mewn cyferbyniad, gwelsom enghreifftiau hefyd o achosion lle nad oedd digon o waith wedi ei wneud parthed ymddygiad troseddol. Mewn un achos roedd arolygwr wedi nodi: "*Nid oedd digon o dystiolaeth o ba waith oedd yn cael ei wneud gyda'r defnyddiwr gwasanaethau i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd cysylltieidig â'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd trafodaethau yn digwydd adeg goruchwyliaeth, ond nid oedd yn glir pa ymyriadau penodol neu waith oedd yn cael ei wneud. Gwnaed atgyfeiriad ynghylch cynghori, ond rydym yn dal i aros*".

Cawsom wybod gan reolwyr CRC bod y nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau NPS oedd yn defnyddio'r rhaglenni achrededig wedi lleihau. Roedd yn ymddangos bod barn y NPS a'r CRC am y rheswm dros hyn yn wahanol. Roedd yr NPS yn hawlio bod eu hatgyfeiriadau hwy i raglenni wedi

cael eu cynnal ar yr un lefel, ac mai diffyg argaeledd rhaglen oedd y rheswm. Roedd gan y CRC farn wahnol, sef bod y nifer o atgyfeiriadau wedi gostwng. Roedd angen i'r ddau sefydliad fynd i'r afael ar y cyd â'r sefyllfa hon.

Roedd yr NPS yng Ngwent yn cynnal cyfarfod tasgio pob bore Llun, ac roeddem yn medru ei wylio. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ac yn cwmpasu'r holl feysydd gwaith allweddol o adroddiadau i gyflwyniadau parôl. Roedd llawer yn ei fynychu ac roedd yn dangos yn glir bod rheolwyr yn ymwneud â gweithrediadau o ddydd-i-ddydd, gan wybod pa waith oedd ar fin cael ei gyflwyno a pha waith oedd yn hwyr. Roedd staff yn cydweithio'n dda i gwmpasu pob maes gwaith, ac roedd yn rhoi cyfleoedd i PSOs ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain mewn perthynas â gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau.

## Gofynion gweithgaredd adsefydlu

Yn galonogol, roedd yr ynadon y buom yn siarad â hwy yn wybodus iawn am y datblygiadau yn, a gwaith, y gwasanaethau prawf y CRC a' r NPS, ill dau, yng Ngwent, trwy gyflwyniadau a ddulliau eraill o ddarparu gwybodaeth.

Er hynny, roeddem wedi canfod peth dryswch ymhlith staff yr NPS am y cerdyn cyfradd, a mynediad i wasanaethau dewisol. Bu pump adrifiad o'r cerdyn cyfradd yn lleol ac mae profiadau yr NPS wedi bod yn gymysg. Roedd yr NPS yn medru prynu gwasanaethau yn rhatach oddi wrth eraill, felly nid oeddynt yn defnyddio gwasanaethau y CRC bob amser. I raddau roedd yr NPS wedi medru dylanwadu ar drosglwyddo; er enghraifft, roedd fersiynau cynnar o'r cerdyn cyfradd yn gorchymyn bod yn rhaid i wasanaethau lletya a brynwyd gynnwys naw sesiwn; mae'r NPS wedi trafod telerau yn awr a newid i dalu fesul sesiwn. Roedd gweithgor cerdyn cyfradd wedi ei sefydlu, ac roedd yn galonogol gweld ymdrechion i geisio datrys materion.

## Bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau

Buom yn siarad â saith defnyddiwr gwasanaethau fel rhan o grŵp trafod, a thri defnyddiwr gwasanaethau yr oeddem wedi adolygu eu hachosion. Yn gyffredinol roeddynt yn gadarnhaol ynghylch eu gwaith gyda'r NPS. Roedd eu sylwadau yn cynnwys:

"*Popeth wedi bod yn eithaf positif, unrhyw beth rwy'n gofyn, mae ganddyn nhw'r atebion*"

"*Wela i ddim bai o gwbl arni, mae hi'n gefnogol iawn*"

"*Roedd siarad gyda'r swyddog prawf wedi fy helpu i*"

"*Doedd e byth yn feirniadol, roedd yn deall*"

"*Cafodd gen i agor fyny er ei fod yn gwybod bod ganddo waith i'w wneud*"

"*Fy helpu i ddeall ble roeddwn i ar y pryd*"

"*Dyw hi jyst ddim yn rhoi'r ateb yn syth, ac mae'n dweud 'Beth ydych chi'n meddwl?*"

Lle roeddynt yn llai cadarnhaol, roedd defnyddwyr gwasanaethau wedi awgrymu y byddent yn hoffi mwy o ymweliadau tra eu bod yn y carchar fel bod y trawnsnewid yn haws, a mwy o help gydag ETE a materion ymarferol ynghylch llety, er enghraifft gyda phrynu eitemau ar gyfer y cartref.

Fel gydag achosion y CRC, nid oedd golwg o geisiadau am y Gymraeg yn yr achosion NPS y buom yn eu harolygu, er i ni nodi bod llenyddiaeth a gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg os oedd eu hangen neu os oedd rhywun yn gofyn amdanynt.

Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau wedi profi sawl newid yn y swyddog cyfrifol, ac roedd hyn yn effeithio ar gysondeb y berthynas. O'r achosion yr oeddem wedi eu hadolygu, roedd bron i hanner wedi cael dau neu fwy o swyddogion cyfrifol ers dyraniad yr achos.

## Adolygiad o'r cynnydd

Roedd adolygiadau wedi eu gwneud yn dda mewn mwy na dwy-draean o'r achosion, ond roedd addasiadau priodol i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau ond wedi eu gwneud yn hanner yr achosion. Mae'r canlynol yn enghraifft o'r budd sy'n deillio o adolygu yn dda:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Bu cyfnod o amser er mwyn dod i adnabod Bill ac roedd hyn yn golygu ei fod yn dechaau agor fyny i'r swyddog cyfrifol, gan drafod ei drosedd a'i gymhelliant. Unwaith roedd hyn wedi digwydd, roedd y swyddog cyfrifol wedi diweddaru'r asesiad, gan roi rhestr lawn a chynhwysfawr o bob cynhadledd Diogelu Plant a dyddiadau grwpiau craidd gyda'r canlyniadau wedi eu rhestri yn eu hymyl. Roedd yr adolygiad wedi darparau asesiad mwy cydlynol gyda diweddariadau priodol, ac fe dynnwyd nod (sydd bellach yn amherthnasol) o'r cynllun.

### Effaith ac effaith bosibl

Yn y mwyafrif mawr o achosion, roedd defnyddwyr gwasanaethau yr oeddem wedi adolygu eu hachosion heb gael eu barnu yn euog eto ers dechrau eu dedfryd neu eu rhyddhau ar drwydded. O ystyried natur gymhleth y llwyth achosion, roeddem wedi canfod bod hyn yn dangos effaith gadarnhaol. Lle roeddynt wedi aildroseddu, roedd amlder a difrifoldeb eu troseddu yn sefydlog yn gyffredinol.

Roedd y cynnydd mwyaf tuag at ganlyniadau wedi eu cyflawni mewn cysylltiad â llety, lle gwelwyd cynnydd cadarnhaol yn nhri-chwatrter yr achosion priodol. Meysydd eraill lle roedd y cynnydd cryfaf wedi ei wneud oedd camddefnydd o alcohol; meddwl ac ymddygiad; agweddau at droseddu; ac iechyd emosiynol a lles. Mae tabl 11 yn dynodi'r galluogwyr allweddol a'r rhwystrau i waith yr NPS wrth leihau aildroseddu:

**Tabl 11: Rhestr o alluogwyr a rhwystrau i'r NPS mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o leihau troseddu.**

| Galluogwyr | | Rhwystrau | |
|---|---|---|---|
| 1. | Roedd ansawdd adroddiadau llys yn dda, ac roedd gan ddedfrydwr radd uchel o hyder yn yr NPS. | 1. | Roedd peth dryswch ymhlith staff yr NPS ynghylch y cerdyn cyfradd a mynediad i wasanaethau dewisol. O ganlyniad nid oedd yr NPS yn cael mynediad i wasanaethau'r CRC bob amser. |
| 2. | Roedd asesiadau a chynllunio i leihau aildroseddu yn darparu sylfaen dda ar gyfer bwrw ymlaen gyda'r gwaith. | | |
| 3. | Roedd cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud tuag at ganlyniadau aildroseddu, a mwyafrif mawr o ddefnyddwyr gwasanaethau heb aildroseddu. | | |

## The Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd

Roedd perthnasau gwaith rhwng y CRC a'r NPS ar bob lefel yn gadarnhaol.

Ar lefel uwch reolwyr roedd buddsoddiad parhaol o amser mewn gweithrediadau partneriaeth yn ardal Gwent, ac roedd hyn yn hyrwyddo cyfathrebiaeth ac arferion gwaith effeithiol.

Roeddem yn falch nodi bod y CRC a'r NPS ill dau wedi cynnal ymrwymiad adnoddau i drosglwyddo IOM, gyda'r NPS yn rheoli'r tîm, a'r ddau sefydliad â staff wedi eu cyd-leoli yn yr adnodd.

Roedd y genfogaeth i a'r gwasnaethau i droseddwyr benywaidd gan y ddau sefydliad yn fudd amlwg. Cryfder y Pathfinder i Fenywod yw bod achosion yn cael eu hailgyfeirio a bod menywod yn cael cyfle i fynd i'r afael â'u problemau cymdeithasol, yn ogystal â mynediad i adnoddau a chefnogaeth cymunedol. Roedd y ddau sefydliad wedi enwebu pwyntiau cyswllt penodol ar gyfer Pathfinder i Fenywod.

Roedd digwyddiadau Dysgu Cymru, oedd yn cynnwys adolygiadau cyfoedion a rhannu dysg, yn dangos ymrwymiad amlwg i weithio gyda'i gilydd i rannu a datblygu ymarfer effeithiol.

Mae tabl 12 yn dynodi'r galluogwyr allweddol i waith y CRC a'r NPS ar y cyd i leihau aildroseddu. Nid oedd unrhyw rwystrau wedi eu dynodi.

**Tabl 12: Rhestr o alluogwyr i'r CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o leihau troseddu.**

| **Galluogwyr** | |
|---|---|
| 1. | Roedd perthnasau rhwng y CRC a'r NPA ar lefel strategol yn dda, a'r ddau sefydliad yn dangos ymrwymiad i weithio fel partneriaeth, gan gynnwys yn fforwm yr IOM. |
| 2. | Roedd yr ymrwymiad i wasanaethau a chefnogaeth i droseddwyr benywaidd yn dda. |
| 3. | Roedd digwyddiadau Dysgu Cymru yn darparu cyfle i staff o'r ddau sefydliad ddysgu ar y cyd. |

# Cadw at y ddedfryd

## Effeithioldeb CRC

Roedd y CRC yn effeithiol yn gyffredinol wrth gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i gadw at eu dedfrydau. At ei gilydd, roeddem wedi canfod bod cynnydd digonol wedi ei wneud wrth drosglwyddo gofynion y ddedfryd neu drwydded yn nhri-chwarter yr achosion, ac roedd bron i ddwy-draean o'r defnyddwyr gwasanaethau wedi cydymffurfio â'r ddedfryd gyfan, rhai heb broblem o unrhyw fath, ac eraill yn dilyn ymdrechion llwyddiannus i'w hail-ymrwymo.

Tra bod y nifer o apwyntiadau ar gynnig yn briodol yn bennaf, roedd gormod o absenoldebau derbyniol mewn rhai achosion, a dylai diffyg ymwneud fod wedi ei drin ynghynt. Ar y cyd â dileu apwyntiadau oherwydd diffyg argaeledd staff, roedd hyn yn golygu bod trefniadau adrodd yn wael ar gyfer rhai defnyddwyr gwasnaethau.

### Trosglwyddiad

Mewn perthynas ag asesiad a chynllunio, roeddem wedi canfod bod amgylchiadau unigol y defnyddiwr gwasanaethau wedi eu hystyried yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion, ac wrth drosglwyddo ymyriadau mewn tua tri-chwarter o'r achosion. Mae'r enghreifftiau a ganlyn yn dangos hyn yn cael ei wneud yn dda - a dim cystal:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd Vanessa yn 40 mlwydd oed ac wedi ei chael yn euog o ladrata, ei throsedd gyntaf.

Roedd ei swyddog cyfrifol wedi ymglymu Vanessa trwy gydol yr asesiad a'r broses gynllunio. Rhoddwyd ystyriaeth i'w hanghenion unigol trwy gynnig swydd unig berson iddi ar gyfer ei gwaith di-dâl, ac roedd hi wedi canfod profiad cadarnhaol iawn a gwerthfawr, a oedd hefyd yn cynnig peth cefnogaeth i'w hanghenion emosiynol. Pan ystyriwyd trosglwyddo ei hachos i'r hyb Mewn-Cysylltiad, roedd Vanessa yn gyndyn, gan ei bod yn teimlo'n nerfus ac y byddai, o bosibl, yn cael llai o gefnogaeth. Roedd y swyddog cyfrifol wedi ystyried hyn gyda'i rheolwr, a gwnaed penderfyniad i beidio â chyfeirio Vanessa i'r hyb, ond i gadw cyswllt wyneb-yn-wyneb â hi yn lle hynny.

O gofio anghenion yr achos, roedd hyn yn gam cadarnhaol a oedd yn hyrwyddo ymrwymiad gyda Vanessa, ac roedd hi wedi cydymffurfio yn llawn gyda gofynion ei dedfryd.

**Enghraifft o ymarfer gwael:**

Roedd Phil yn ddefnyddiwr cyffuriau anhrefnus gyda hanes o ddiffyg cydymffurfio ac ymrwymiad gwael. Cafodd ddedfryd cychwynnol o orchymyn cyrffiw wedi ei fonitro yn electronig. Daeth hyn yn ôl i'r llys ymhen ychydig wythnosau, a gosodwyd gorchymyn gwaith di-dâl yn ei le. Roedd hyn hefyd yn anaddas gan fod Phil mor anrhefnus ac yn anabl i weithio.

Nid oedd yr un asesiad na chynllun newydd wedi eu cwblhau ar gyfer y gorchymyn hwn. Roedd gan Phil nifer o orchmynion cyfredol, ac roedd yr asesiadau ar gyfer y rhain yn wael gyda bylchau yn yr wybodaeth a dim ystyriaeth o natur anrhefnus yr achos. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod Phil yn ymwneud ag unrhyw gynllunio ac, yn wir, roedd yr asesiad mwyaf priodol blaenorol wedi dweud nad oedd Phil wedi ei weld cyn y cwblhad. Roedd bylchau hefyd wrth gofnodi gwybodaeth gyswllt, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cyswllt ystyrlon wedi digwydd.

Nid oedd Phil wedi cydymffurfio â gofynion ei ddedfryd. Yn y pen draw cafodd ddedfryd o garchar

am dorri'r gofynion, er y dylai'r weithred o orfodaeth fod wedi digwydd lawer ynghynt.

Roedd yn dda gweld bod y defnyddiwr gwasanaethau yn ymwneud yn ystyrlon yn y cynllunio yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd y sefyllfa yn fwy siomedig mewn perthynas ag adolygu, lle roedd y defnyddiwr gwasanaethau wedi ymwneud mewn llai na thraean o'r achosion; roeddem yn teimlo bod hyn yn adlewyrchu'r diffyg blaenoriaeth a roddai'r CRC i'r angen i adolygu achosion.

Roeddem o'r farn bod cynnydd digonol wedi ei wneud wrth drosglwyddo gofynion y ddedfryd neu'r drwydded yn nhri-chwarter yr achosion a arolygwyd, a bod y nifer o apwyntiadau ar gynnig yn briodol yn y mwyafrif mawr o achosion.

Tra ein bod wedi gweld rhai enghreifftiau da o swyddogion cyfrifol yn ceisio bod yn hyblyg ac ymateb i anghenion y defnyddiwr gwasanaethau, roeddem yn teimlo mewn rhai achosion bod absenoldebau yn cael eu tybio yn rhy aml i fod yn dderbyniol gyda llawer gormod o led yn cael ei roi. Mae'n ymddangos bod hyn yn duedd sydd wedi dod i'r golwg dros arolygiadau diweddar ac mae'n un fydd yn cael ein sylw manwl yn y dyfodol. Gwelsom rai achosion lle dylid fod wedi mynd i'r afael â diffyg-ymwneud ynghynt. Mewn tri achos yr oeddem wedi eu hadolygu, roedd un ar ddeg neu fwy o absenoldebau y tybiwyd eu bod yn dderbyniol. Mewn achosion eraill, gwelsom apwyntiadau yn cael eu dileu oherwydd diffyg argaeledd staff.

Roedd y CRC wedi gosod proses ar gyfer paneli ymrwymiad, â'r bwriad i gynorthwyo lle nad oedd defnyddwyr gwasanaethau yn cydymffurfio yn briodol gyda gofynion eu dedfryd. Lle gwelsom dystiolaeth o hyn, ar y cyfan roeddynt fel pe byddent yn ffurfio apwyntiad goruchwylio ychwangeol gyda'r swyddog cyfrifol, yn hytrach na phanel ffurfiol.

Er hyn oll, ymron tri-chwarter yr achosion, roedd ymddygiad anaddas, absenoldebau neu ddiffyg cydymffurfio wedi ennyn ymateb priodol, a thri achos yn unig welsom ni lle nad oedd gweithredu ynghylch tor-rheolau wedi digwydd pan ddylai fod.

## Effaith ac effaith bosibl

Mewn chwech achos o bob deg yn ein sampl, roedd defnyddwyr gwasanaethau wedi cadw at eu dedfryd, rhai ohonynt yn dilyn ymdrechion llwyddiannus i'w cael i ail-ymwneud yn dilyn absenoldeb.

Roedd y nifer o absenoldebau, fodd bynnag, yn gweithredu fel rhwystr i ddefnyddwyr gwasnaethau gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn pedwar achos o bob deg. Mae tabl 13 yn dynodi galluogwyr a rhwystrau y CRC wrth geisio cael unigolion i gydymffurfio â'u dedfrydau.

**Tabl 13: Rhestr o alluogwyr a rhwystrau i'r CRC mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o gadw at y ddedfryd.**

| Galluogwyr | | Rhwystrau | |
|---|---|---|---|
| 1. | Roedd swyddogion cyfrifol yn gyffredinol yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion amrywiol y defnyddwyr gwasanaethau. | 1. | Roedd maint y newidiadau sefydliadol wedi amharu ar rai agweddau o drosglwyddo gwasanaethau. Roedd staff yn gadael ac absenoldebau oherwydd sawlch wedi arwain at drefniadau adrodd gwael ar gyfer rhai achosion yn yr arolygiad. |
| 2. | At ei gilydd roedd y nifer o apwyntiadau a gynigiwyd wedi bodloni yr anghenion a aseswyd yn yr achos. | 2. | Roedd gormod o absenoldebau derbyniol mewn rhai achosion, a'r nifer o absenoldebau yn gweithredu fel rhwystr rhag cyflawni i ddefnyddwyr gwasanaethau gyflawni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | canlyniadau cadarnhaol. |
| | | 3. | Nid oedd defnyddwyr gwasanaethau yn ymwneud digon ag adolygiadau. |

## Effeithioldeb yr NPS

At ei gilydd, roedd ansawdd y gwaith yn dda. Roedd y mwyafrif mawr o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi cadw at ofynion eu dedfrydau, neu lle nad oeddynt wedi gwneud, roedd camau gweithredu gorfodaeth wedi eu cymryd.

### Trosglwyddiad

Roeddem o'r farn bod cynnydd digonol wedi ei wneud wrth drosglwyddo gofynion y ddedfryd mewn pedwar achos o bob pump yn y sampl. Roeddem yn falch gweld bod y nifer o apwyntiadau a gynigiwyd wedi bodloni anghenion yr unigolyn ym mhob achos.

Roeddem wedi canfod bod anghenion amrywiol unigolion wedi eu hystyried mewn asesiadau, cynllunio, adolygu a throsglwyddo ymron pob achos yn y sampl. Roedd tystiolaeth o waith ysgogiadaol da gan swyddogion cyfrifol i hyrwyddo cydymffurfio, ar y cyd â gwytnwch a dyfalbarhad wrth annog defnyddwyr gwasanaethau i ymwneud.

**Enghraifft o ymarfer da:**

Roedd Warren yn 32 oed ac ar drwydded am dorri gorchymyn ataliol.

Roedd yn eglur bod y swyddog cyfrifol wedi treulio amser yn creu perthynas gyda Warren, gan gael ganddo i ymwneud â dynodi ei anghenion ei hun, a'r hyn roedd ei angen arno i gefnogi ei adsefydliad ei hun. Dynodwyd blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac yna eu torri lawr i gamau llai, mwy hydrin pan ddywedodd na wyddai sut i fwrw ati i'w cyflawni. Gwnaed atgyfeiriad i'r elusen iechyd meddwl, MIND, am gefnogaeth i fynd i'r afael â phryder Warren ac â'r rheolaeth o'i hwyliau. Roedd rhwystrau i ymwneud yn cynnwys cadw-amser ac anghofio apwyntiadau. Roedd tystiolaeth ar y system reoli achosion bod y swyddog cyfrifol wedi trafod hyn gyda Warren a'i gymell i ddynodi ffyrdd i ymdrin â'r materion hyn.

Roedd Warren yn wynebu achos tor-rheolau am fod yn hwyr ar gyfer apwyntiadau. Roedd y swyddog cyfrifol, fodd bynnag, wedi ei annog i barhau i fynychu, ac o ganlyniad roedd wedi cyrraedd yn gynnar ar gyfer ei apwyntiadau tra'n disgwyl am ddydiad y llys ar gyfer y tor-rheolau.

### Effaith ac effaith bosibl

Roedd y mwyafrif mawr o'r rhai hynny yr oeddem wedi arolygu eu hachosion wedi cadw at ddedfryd y llys. Roedd hyn wedi digwydd trwy gydymffurfio yn llwyr, neu gydymffurfio yn dilyn gweithredu gorfodaeth, ac roeddem wedi canfod bod gweithredu ar dor-rheolau neu alw'n ôl wedi digwydd ymhob achos lle roedd galw am wneud hyn.

Mae tabl 14 yn dynodi galluogwyr allweddol yr NPS i annog cydymffurfiad unigolion â'u dedfryd. Ni ddynodwyd unrhyw rwystrau i'r gwaith hwn.

**Tabl 14: Rhestr o alluogwyr i'r NPS mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o gadw at y ddedfryd.**

| **Galluogwyr** | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| 1. | Roedd staff yn deall ac yn ymateb yn gyson i anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaethau. |
| 2. | Roedd gwytnwch a dyfalbarhad oddi wrth swyddogion cyfrifol yn eu gwaith i gefnogi ymrwymiad. |
| 3. | Roedd swyddogion cyfrifol yn gadarn wrth weithredu gorfodaeth pan oedd angen. |

## Y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd

### Gorfodaeth

Roedd rhai staff NPS yn adrodd eu bod yn anhapus gydag ansawdd yr adroddiadau am dor-rheolau wrth y CRC, tra bod staff CRC yn meddwl bod gradd o grachysgolheictod o du staff NPS wrth wrthod tor-rheolau. Erbyn hyn roedd rheolwyr wedi gweithio trwy'r mater hwn, ac mae ansawdd yr adroddiadau am dor-rheolau yn gwella.

Mae tabl 15 yn dynodi galluogwyr allweddol i waith y CRC a'r NPS yn gweithio ar y cyd i ennyn cydymffurfiad unigolion â'u dedfrydau. Nid oedd unrhyw rwystrau wedi eu dynodi.

**Tabl 1r: Rhestr o alluogwyr i'r CRC a'r NPs yn gweithio ar y cyd mewn perthynas â thiriogaeth yr arolygiad o gadw at y ddedfryd.**

| **Galluogwyr** | |
|---|---|
| 1. | Roedd sianeli cyfathrebu effeithiol rhwng y CRC a staff NPS ar lefel rheolwyr. |

# Atodiad 1: Methodoleg yr arolygiad

Dechreuodd rhaglen Ansawdd ac Effaith Arolygiaeth Prawf EM yn Ebrill 2016, ac mae wedi ei chynllunio i archwilio gwaith prawf mewn ardal ddaearyddol arwahanol, sydd gyfwerth ag ardal heddlu/Comisiynydd Heddlu a Throseddu, waeth pwy sydd yn trosglwyddo'r gwaith. Rydym yn arolygu gwaith yr NPS a'r CRC ill dau, ac yn archwilio cyfraniad unrhyw un o'r parterniaid sydd yn gweithio oddi mewn i'r sefydliadau hyn.

Roedd tîm o arolygwyr wedi ymweld â'r ardal am ddwy wythnos lawn yn Nhachwedd-Rhagfyr 2016. Cyn dechrau ar y gwaith maes, roeddem wedi cynnal cyfarfodydd canfod-ffeithiau gyda'r CRC a'r NPS yng Ngwent ac wedi casglu detholiad o dystiolaeth rhag blaen. Yn wythnos gyntaf y gwaith maes, roeddem wedi arolygu nifer o achosion y penderfynwyd arnynt rhag blaen (gorchmynion cymunedol, gorchmynion dedfrydau gohiriedig, a thrwyddedau) unigolion a oedd wedi eu dedfrydu neu eu rhyddhau o garchar tua naw mis ynghynt. Efallai nad oedd yr achosion hyn yn cynrychioli yn llwyr yr holl achosion cymwys, ond cyn belled â phosibl roeddem wedi sicrhau bod y cyfraddau yn cyfateb yn nhermau (i) rhyw, (ii) ethnigrwydd, (iii) math o ddedfryd a (iv) lleoliad y swyddfa - gydag isafswm o niferoedd wedi eu gosod ar gyfer (i) a (ii). Cafodd achosion eu dewis hefyd o'r ystod lawn o risg o niwed difrifol a lefelau tebygolrwydd o aildroseddu, ac oddi wrth cynifer o swyddogion cyfrifol â phosibl. Yng Ngwent, roedd y sampl yn cynnwys 47 achos, gyda 31 yn achosion y CRC a 16 yn achosion NPS.

Yna roedd y tîm wedi dychwelyd bythefnos yn ddiweddarach i ddilyn llwybrau ymholi oedd yn deillio o'r wythnos gyntaf, gan wylio gweithredu ac ymyriadau penodol a siarad gyda staff allweddol, rheolwyr a phartneriaid, mewn grwpaiu ffocws, cyfarfodydd, neu ar sail un-i-un.

Yn yr arolygiad hwn roeddem wedi cynnal dau grŵp ffocws yn cynnwys 17 aelod o staff, a buom yn siarad hefyd gyda 67 o randdeiliaid eraill: 33 rheolwr, 22 ynad a 12 aelod o staff o asiantaethau partner.

Roeddem wedi ceisio siarad gyda'r defnyddwyr gwasanaethau hynny oedd wedi rhoi caniatád i ni gysylltu â hwy. Yn yr arolygiad hwn, roeddem wedi siarad â 19 defnyddiwr gwasanaethau (9 o'r CRC a 10 o'r NPS) yr oeddem wedi arolygu eu hachosion neu oedd yn mynychu ymyriadau penodol.

Roedd gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a staff ynghylch yr arolygiad, a chafodd rheolwyr y dewis i gael unrhyw ddogfennau arolygiad wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Cafodd defnyddwyr gwasnaethau a staff gyfle i gael eu cyfweld yn y Gymraeg, ac i'r perwyl hynny roedd gennym arolygwr Cymraeg ei iaith ar y safle ac roedd ar gael pe byddai ei angen. Nid oedd unrhyw un wedi dewis cael cyfweliad yn y Gymraeg.

Roedd yr arolygiad wedi canolbwyntio ar asesu sut roedd ansawdd ymarfer wedi cyfrannu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau, a gwerthuso pa effaith calonogol a gyflawnwyd. Roeddem yn ymwybodol y medrai'r effaith gyfredol ddarparu tystiolaeth o gynnydd tuag at ymataliad hir-dymor. Yn benodol, roeddem yn ceisio adrodd ar a oedd aildroseddu wedi lleihau, y cyhoedd wedi eu diogelu rhag niwed ac unigolion wedi cadw at eu dedfryd.


# Atodiad 2: Data cefndir

Roedd yr arolygiad hwn yn cwmpasu Gwent sef awdurdodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Mynwy, Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

**Demograffeg poblogaeth**

Amcangyfrifwyd bod poblogaeth sir hanesyddol Gwent yn 581,789 yn 2015.


**Ffigur 2.1: Amcangyfrif o'r boblogaeth, canol-2015**




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016.*

Mae trigolion pedair bwrdeistref Gwent wedi eu ffurfio yn bennaf o grwpiau gwyn Prydeinig; mae gan ddinas Casnewydd gymunedau mwy amrywiol.

**Ffigur 2.2:Ethnigrwydd yng Ngwent, cyfrifiiad 2011**





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2012.*

**Lefelau diweithdra**

Fel y gwelir yn Ffigur 2.3, mae diweithdra yng Ngwent yn uwch na chyfartaledd Cymru ond mae'r darlun yn amrywio llawer yn ôl lleoliad.

**Ffigur 2.3: Diweithdra yngNgwent, 2015/2016**





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2017.*

## Lefelau aildroseddu

Mae'r gyfradd o aildroseddau a brofwyd ar gyfer Gwent wedi ei dangos yn Ffigur 2.4, ar sail yr holl droseddwyr o oedolion a gafodd eu rhyddhau o'r ddalfa, a dderbyniodd euogfarn digarchar neu a gafodd rybuddiad yn y cyfnod Ebrill 2014 hyd at fis Mawrth 2015.

Mae aildroseddu yng Ngwent ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, ond ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Ffigur 2.4: Cyfradd o aildroseddu a brofwyd yng Ngwent, Ebrill 2014 hyd at Fawrth 2015**





*Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017.*

Mae cyfartaledd y nifer o droseddau blaenorol fesul troseddwr ar gyfer Gwent a ddangosir yn Ffigur 2.5 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, ond ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru..

### Ffigur 2.5: Hanes troseddau yng Ngwent, Ebrill 2014 hyd at Fawrth 2015


*Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017.*



# Atodiad 3: Dadansoddiad data o achosion a arolygwyd


Mae'r siartiau hyn yn dangos canfyddiadau allweddol o'r achosion ymarfer perthnasol a arolygwyd. Dyma'r ffigyrau cyfunol ar gyfer yr ardal fel cyfanrwydd (nid ffygyrau ar wahân ar gyfer CRC ac NPS) oherwydd y niferoedd bychan. Mae'r siartiau hyn yn dangos niferoedd absoliwt yn hytrach na chanrannau. Mae maint y segmennau yn y siart bar yn darparu syniad o gyfrannedd, tra bod y rhif yn darparu syniad o ba mor fawr oedd y sampl.

**Ffigur 3.1 Diogelu'r Cyhoedd**




**Ffigur 3.2 Diogelu'r Cyhoedd**


Hyd yma yn y gorchymyn/y drwydded, a yw'r swyddog cyfrifol wedi gwneud cynnydd digonol wrth ddylanwadu ar y risg o niwed wrth y defnyddiwr gwasanaeth hwn i:




**Ffigur 3.3 Lleihau Aildroseddu**



**Ffigur 3.4 Cadw at y ddedfryd**



# Atodiad 4: Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Rhaglen achrededig | Rhaglen o waith a drosglwyddwyd i droseddwyr mewn grwpiau neu yn unigol trwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu ran o amod trwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig wedi eu hachredu gan y Panel Achredu Gwasanaethau Cywirol fel bod yn effeithiol wrth leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. |
| Dosraniad | Y broses o benderfynu a yw troseddwr i gael ei oruchwylio gan yr NPS neu gan CRC |
| System Weithredol Rheoli Risg | Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gweithio gyda throseddwyr gwrywaidd sydd yn amodol ar oruchwyliaeth statudol. Mae'n cynorthwyo asesu risg dynamig a ffactorau diogelu (gweler Cyfarwyddiad Prawf 15/2015 am wybodaeth bellach) |
| BBR/APG | Adeiladau Perthnasau Gwell: rhaglen o waith grŵp sydd wedi ei achredu yn genedlaethol i leihau troseddu gan oedolion gwrywaidd sydd yn troseddu yn dreisgar yn erbyn partner agos |
| Gyrfa Cymru | Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad Llywodraeth Cymru am yrfaoedd |
| Clwstwr | Dosbarthiad o swyddfeydd. Yng Ngwent, ar hyn o bryd mae gan yr NPS a'r CRC swyddfeydd yng Nghaerffili, Dwyrain Gwent ( Pont-y-pŵl), Glyn Ebwy, a Chasnewydd |
| Cymunedau'n Gyntaf | Rhaglen Llywodraeth Cymru, â chanolbwynt ar gymunedau, i fynd i'r afael â thlodi |
| Rheoli trais a dicter mewn yfwyr byrbwyll | Cyfres genedlaethol o raglenni achrededig â'r nod o leihau troseddau gan ddynion ifanc yn bennaf; gall y fersiynau gwahanol gael eu trosglwyddo fel gwaith grŵp neu ar sail un-i-un |

| | |
|---|---|
| CRC | Cwmni Adsefydlu Cymunedol: cafodd 21 cwmni o'r math hwn eu sefydlu ym Mehefin 2014, i reoli y rhan fwyaf o droseddwyr sydd yn cyflwyno risg isel neu ganolog o niwed difrifol |
| Rhaglen Gyrwyr fu'n Yfed | Rhaglen genedlaethol achrededig â'r nod o wynebu troseddwyr â materion perthnasol i yfed a gyrru |
| E3 | Mae E3 yn cynrychioli 'Effeithioldeb, Effeithiolrwydd, a Rhagoriaeth'. Cafodd rhaglen E3 ei chreu yn dilyn y rhaglen*Trawsnewid Adsefydlu* ym Mehefin 2014. Yr egwyddor sylfaenol yw i safoni trosglwyddiad NPS, ail-lunio strwythur yr NPS gyda chwe maes ffocws allweddol, ac un ohonynt yw gwasnaethau dioddefwyr |
| ETE | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysg unigolyn, ac i gynyddu eu rhagolygon o gael cyflogaeth |
| Rheolwr achos swyddfa flaen | Dyma'r term lleol a ddefnyddir ar gyfer ymarferwyr rheng flaen (swyddogion cyfrifol) sydd yn trosglwyddo rheolaeth troseddwyr |
| Troseddau ditiadwy | Mae'r rhain yn cyfeirio at droseddau profadwy y naill ffordd neu'r llall neu droseddau ditiol yn unig. Gellir cynnal achosion troseddau profadwy y naill ffordd neu'r llall yn Llys y Goron neu lys yr ynadon. Maent yn cynnwys difrod troseddol lle mae'r gwerth yn £5,000 neu fwy; lladrad; bwrgleiriaeth; ac yfed a gyrru. Yn aml bydd profadwy yn unig ar dditiad a phrofadwy y naill ffordd neu'r llall yn cael eu cyfuno i ffurfio troseddau ditiadwy. Troseddau ditiadwy yn unig yw'r tor-cyfraith mwyaf difrifol mewn cyfraith trosedd a rhaid i'r troseddwr fynd ar brawf yn Llys y Goron o flaen barnwr a rheithgor. Mae troseddau ditiadwy yn unig yn cynnwys llofruddiaeth, dynladdiad, treisio a lladrad |
| IOM | Rheoli Integredig Troseddwyr:daw hyn ag ymateb traws-asiantaethau i'r drosedd ac i fygythiadau o aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Bydd y troseddwyr mwyaf dyfalbarhaus a phroblematig yn cael eu hadnabod a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd |
| Hyb Mewn-Cysylltiad | Mae'r hybs Mewn-Cysylltiad yn rhan o fodel gweithredu Working Links. Maent wedi eu bwriadu i dynnu swyddogaethau arferol gweinyddu achosion oddi ar staff rheng flaen a mwyhau amser wynebu-troseddwyr i reolwyr achosion. Rheolir y rhai hynny â risg isel o niwed gan yr hyb, yn bennaf trwy gyswllt ar y ffôn |
| LDU | Uned drosglwyddo leol: uned weithredol yn cynnwys swyddfa neu swyddfeydd, gan amlaf yn cydffinio gydag unedau rheoli sylfaenol yr heddlu a strwythurau awdurdodau lleol |
| Bwrdd Lleol Diogelu Plant | Wedi ei sefydlu ym mhob awdurdod lleol (o ganlyniad i*Ddeddf Plant 2004*) i gydlynu a sicrhau effeithioldeb gwaith amlasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yr yr adal honno |

| | |
|---|---|
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sydd yn gosod risg uwch o niwed i eraill. Lefel 1 yw rheolaeth cyffredin asiantaeth lle mae modd rheoli'r risg a osodir gan y troseddwr gan yr asiantaethsydd yn gyfrifol am oruchwyliaeth neu reolaeth achos y troseddwr. Mae hyn yn cymharu gyda Lefelau 2 a 3, sydd yn galw am reolaeth gweithredol amlasiantaethol |
| MASH | Hyb Diogelu Amlasiantaethaol: yn gweithredu fel pwynt cyntaf cyswllt ar gyfer pryderon neu ymholiadau diogelu newydd. Gan amlaf maent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol (gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion), yr heddlu, cyrff iechyd, prawf ac asiantaethau eraill |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: yr adran o'r llywodraeth â chyfrifoldeb am y system weinyddiaeth gyfiawnder yn y Deyrnas Unedig |

| | |
|---|---|
| MOSOVO | Rheolaeth Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar. Mae'r cwrs hyfforddi achrededig yn darparu ymarferwyr Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr heddlu gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i'w galluogi i adnabod a rheoli troseddwyr rhyw, troseddwyr treisgar a throseddwyr peryglus eraill sydd yn disgyn oddi mewn i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) |
| nDelius | National Delius:y system reoli achosion gymeradwy a ddefnyddir gan yr NPS a'r CRCs yng Nghymru a Lloegr |
| NOMS | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: yr asiantaeth sengl sydd yn gyfrifol am garchardai a gwasnaethau prawf ill dau. O Ebrill 2017, bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn disodli NOMS |
| NPS | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: gwasanaeth sengl cenedlaethol a ddaeth i fodolaeth ym Mehefin 2014. Ei swyddogaeth yw trosglwyddo gwasanaethau i lysoedd ac i reoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys y rhai hynny sydd yn gosod risg uchel neu risg uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai hynny sydd yn amodol ar MAPPA |
| OASys | System asesu troseddwyr a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr i fesur risgiau ac anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth |
| Partneriaid | Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, yn gweithio gyda'r troseddwr, yn aml trwy gytundeb partneriaeth gyda'r NPS neu CRC |
| Darparwyr | Mae darparwyr yn trosglwyddo gwasanaeth neu fewnbwn a gomisiynwyd gan ac a ddarperir dan gytundeb NPS neu'r CRC. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau a ddarperir dan y cytundeb, hyd yn oed pan yw'r rhain wedi eu hintegreiddio neu eu lleoli oddi mewn i'r NPS neu'r CRC. |
| Adroddiad cyn-dedfrydu | Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys, p'un ai ei fod wedi ei drosglwyddo ar lafar neu mewn fformat ysgrifenedig |
| PO | Swyddog prawf: dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol cymwys sydd wedi ymgymryd â chwrs ar sail addysg uwch am ddwy flynedd. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrwyio yn ddibynnol ar ba bryd y dilynwyd ef. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth |
| PSO | Swyddog gwasanaethau prawf: dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol a gafodd ei recriwtio yn wreiddiol heb gymhwyster prawf. Gallant gael mynediad i hyfforddiant lleol er mwyn cymhwyso fel swyddog gwasanaethau prawf neu i adeiladau ar hyn i gymhwyso fel swyddog prawf. Gallant reoli pob achos ar wahân i'r rhai mwyaf dyrys yn dibynnu ar lefel eu hyfforddiant a'u profiad. Mae rhai PSOs yn gweithio yn y llys, lle mae eu dyletswyddau yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu |
| RAR | Gofynion gweithgaredd adsefydlu: Ers Chwefror 2015, pan |

| | |
|---|---|
| | gafodd *Deddf Adsefydlu Troseddwyr*ei gweithredu, gall y llysoedd bennu'r union nifer o ddiwrnodau RAR mewn gorchymyn; y gwasanaethau prawf sydd yn penderfynu ar yr union waith sydd i'w wneud yn ystod y diwrnodau RAR a ddyfarnwyd |
| Cerdyn cyfradd | Cyfarwyddiadur y gwasanaethau a gynigir gan y CRC i'w ddefnyddio gyda'r NPS â'u defnyddwyr gwasanaethau, gan fanylu ar y pris |
| Swyddog cyfrifol | Y term a ddefnyddir ar gyfer y swyddog (a elwid gynt yn 'rheolwr troseddwr') sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli achos |
| Trosedd diannod | Gan amlaf clywir y troseddau hyn mewn llys ynadon yn unig. Troseddau moduro sydd yn cael y lle blaenllaw yn y grŵp hwn, ac ar eu cyfer gellir rhoi cosb benodedig, ond hefyd mae'n cynnwys troseddau llai difrifol megis ymosod cyffredin a difrod troseddol hyd at £5,000 |
| Rhaglen Sgiliau Meddwl | Rhaglen grŵp achrededig sydd wedi ei llunio i ddatblygu sgiliau meddwl troseddwr i'w helpu i gadw'n glir o drybini |
| Trwy'r Porth | Gwasanaethau adsefydlu yw gwasanaethau Trwy'r Porth, a drosglwyddir gan CRCs, wedi eu llunio i helpu'r rhai hynny sydd wedi eu dedfrydu i fwy nag un diwrnod yn y carchar i setlo'n ôl i'r gymuned wedi iddynt gael eu rhyddhau. |
| *Trawsnewid Adsefydlu* | Rhaglen y llywodraeth ar gyfer y dull o reoli troseddwyr yng Nghymru a Lloegr ers Mehefin 2014 |
| Gwaith di-dâl | Gall y llys gynnwys gofyniad gwaith di-dâl fel rhan o orchymyn cymunedol. Gellir gofyn i droseddwyr weithio am hyd at 300 awr ar brosiectau cymunedol dan oruchwyliaeth. Ers Chwefror 2015, mae gwaith di-dâl wedi ei drosglwyddo gan CRCs. |
| ViSOR | Bas data cenedlaethol cyfrinachol yw ViSOR sydd yn cefnogi MAPPA. Mae'n hwyluso'r rhannu effeithiol o wybodaeth a chudd-wybodaeth am droseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw rhwng tair Asiantaeth Gyfrifiol MAPPA (yr heddlu, prawf a charchardai). Nid yw ViSOR yn acronym bellach ond dyma yw enw ffurffiol y bas data |
| Swyddog cyswllt dioddefwyr | Yn gyfrifol am drosglwyddo gwasanaethau i ddioddefwyr yn unol â chyfrifoldebau statudol yr NPS |
| Cymorth i Fenywod | Elusen genedlaethol yn gweithio i roi terfyn ar drais domestig yn erbyn menywod a phlant |

# Atodiad 5: Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr arolygiad hwn; heb eu cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

Hoffem, yn benodol, ddiolch i'r uwch reolwyr a'u cynorthwywyr personol/gweithredol am hwyluso'r arolygiad ac am wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer yr wythnosau gwaith maes.

| | |
|---|---|
| **Arolygydd arweiniol** | Sue McGrath |
| **Dirprwy Arolygydd Arweiniol** | Tony Rolley |
| **Y Tîm Arolygu** | Joe Coleshill, *Arolygydd Cynorthwyol*<br>Andy Griffiths, *Arolygydd Cynorthwyol*<br>Keith Humphreys, *Arolygydd a delir â ffi*<br>Wendy Martin, *Arolygydd (Sylwedydd)*<br>Helen Mercer, *Arolygydd*<br>Joe Simpson, *Arolygydd* |
| **Gwasanaethau Cynnal** | Kevin Ball, *Uwch Swyddog Ymchwil*<br>Claire Fallows, *Swyddog Data*<br>Adam Harvey, *Rheolwr Gwasanaethau Cymorth*<br>Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil*<br>Lynne Osborn, *Swyddog Gwasanaethau Cynnal* |
| **Golygydd yr Adroddiad** | Helen Rinaldi, *Prif Arolygydd Cynorthwyol* |